Ehangu cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion:
Arolwg o arfer orau

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi Dros Addysg
A Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate
For Education and Training in Wales

...Rhagoriaeth i bawb... …Excellence for all…

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Cynnwys Tudalen

1	Cyflwyniad a chefndir	1
2	Cyd-destun dysgu yn y gymuned i oedolion	3
3	Prif ganfyddiadau	6
4	Arfer dda wrth nodi a bodloni anghenion dysgwyr newydd	9
5	Arfer dda wrth hyrwyddo cyflawniad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion	15
6	Arfer dda wrth addysgu ac asesu mewn dysgu yn y gymuned i oedolion	18
7	Arfer dda wrth ddarparu gofal, arweiniad a chymorth i ddysgwyr newydd	21
8	Effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth strategol wrth ehangu cyfranogiad	23
9	Datblygu ansawdd ar gyfer dysgwyr newydd	26
10	Arfer dda wrth reoli a defnyddio adnoddau	28
11	Argymhellion	31
Atodiad 1: Darparwyr a ymwelwyd		32
Atodiad 2: Natur dysgu yn y gymuned		33
Ffynonellau		36

1. Cyflwyniad a chefndir

Mae'r arolwg hwn yn edrych ar arfer orau wrth ehangu cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion, ac yn nodi rhai o'r rhwystrau rhag ymestyn arfer orau ledled Cymru. Wrth sôn am ddysgu yn y gymuned i oedolion, golygwn y dysgu a ddarperir ar gyfer oedolion mewn lleoliadau cymunedol lleol ac a gynllunnir yn benodol i ymestyn i leoedd ac i bobl nad yw mathau eraill o ddysgu yn eu cyrraedd. Mae'n:

- rhoi cyfleoedd i bobl ddychwelyd at ddysgu yn rhan-amser;
- yn eu cynnwys wrth benderfynu'r hyn yr hoffent ddysgu, a'r modd yr hoffent ei ddysgu;
- yn eu hymrwymo i ddysgu a gynllunnir i wella ansawdd eu bywydau neu ddatblygiad personol;
- yn eu galluogi i ddatblygu'r gallu i elwa o astudiaeth bellach; ac
- yn eu helpu i gyfranogi yn eu cymunedau fel dinasyddion gweithgar.

Mewn llawer o achosion, cynllunnir dysgu yn y gymuned i oedolion i wneud iawn am y cyfleoedd dysgu sydd wedi cael eu colli yn y gorffennol am wahanol resymau. Yn gyffredinol, nid yw'r dysgu yr edrychom arno yma yn arwain yn uniongyrchol at gymhwyster academaidd neu alwedigaethol prif ffrwd, er y gall arwain at fathau eraill o ganlyniadau wedi'u hachredu. Mae llawer o'r oedolion a gymerodd ran yn yr arolwg hwn wedi bod allan o ddysgu ers amser maith a heb fod yn ddysgwyr llwyddiannus yn y gorffennol. Rydym wedi gosod prif nodweddion dysgu yn y gymuned i oedolion yn Atodiad 2.

Mae'r dysgu yr edrychom arno yma yn cynnwys dysgu yn y gymuned i oedolion a ddarperir gan golegau addysg bellach, awdurdodau lleol (gan gynnwys darpariaeth a gynigir drwy drefniadau partneriaeth gyda cholegau addysg bellach) a'r sector gwirfoddol. Rydym wedi edrych hefyd ar fathau eraill o bartneriaeth a rôl partneriaeth wrth ehangu cyfranogiad.

Wrth "ehangu cyfranogiad", golygwn yr ymdrechion a wneir gan sefydliadau i ymestyn i gynnwys dysgwyr newydd sydd ag ystod eang o gefndiroedd personol, cymdeithasol a diwylliannol efallai nad yw dysgu'n eu denu'n naturiol, neu efallai sydd heb draddodiad o addysg yn y teulu. Drwy ehangu cyfranogiad, felly, ni olygwn gynyddu niferoedd cyffredinol dysgwyr yn unig, ond denu dysgwyr newydd a allai berthyn i grwpiau sydd heb gael eu cynrychioli'n dda yn y corff dysgu yn y gorffennol.

Er mwyn cwblhau'r arolwg, gwnaethom arolygu lleoliadau dysgu yn y gymuned. Cafwyd tystiolaeth hefyd o adroddiadau arolygiadau ac arolygon Estyn. Nodwyd cyhoeddiadau diweddar sy'n delio â dysgu yn y gymuned i oedolion, a gyhoeddwyd gan gyrff cenedlaethol allweddol, gan gynnwys:

- Swyddfa Ystadegau Gwladol Llywodraeth Cynulliad Cymru;

- Syniad – grŵp meincnodi Cymru gyfan ar gyfer dysgu yn y gymuned i oedolion;

- ELWa, sy'n gyfrifol am ariannu llawer o'r dysgu yn y gymuned i oedolion yng Nghymru; a

- NIACE Dysgu Cymru, sefydliad gwirfoddol sy'n cefnogi datblygu arfer orau mewn dysgu yn y gymuned i oedolion yng Nghymru.

2. Cyd-destun dysgu yn y gymuned i oedolion

Polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae ystod o ddogfennau polisi Llywodraeth Cynulliad Cymru, gan gynnwys *Y Wlad sy'n Dysgu* a *Cymunedau yn Gyntaf*, yn amlinellu pwysigrwydd dysgu yn y gymuned i oedolion i adfywio cymunedau a datblygiad economaidd yng Nghymru. Drwy dargedau a osodwyd yn *Y Wlad sy'n Dysgu*, nod Llywodraeth Cynulliad Cymru yw cynyddu cyfranogiad mewn dysgu a hyrwyddo cyfle cyfartal i bob oedolyn yng Nghymru wrth gael mynediad i gyfleoedd dysgu o ansawdd.

Datganodd y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes yn *Y Wlad sy'n Dysgu,* (2000) mai ei:

"…gweledigaeth ar gyfer addysg a dysgu gydol oes yw y dylai Cymru ennill clod yn rhyngwladol fel Gwlad sy'n Dysgu: lle sy'n rhoi diddordebau dysgwyr yn gyntaf; yn cynnig mynediad a chyfleoedd ehangach i bawb; yn dyheu am ragoriaeth o un pen i'r llall; ac na fydd yn fodlon â'r ail orau wrth wireddu dysgu gydol oes" [1]

Mae *Y Wlad sy'n Dysgu* yn gosod targedau dysgu gydol oes cenedlaethol. Mae'n amlygu'r ffaith bod llwyddo i gyflawni rhai o'r targedau hyn yn dibynnu ar ehangu'r ystod a chynyddu niferoedd oedolion sy'n dysgu drwy'r system, ond yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â dysgu yn y gymuned i oedolion. Er mwyn cyflawni targedau Llywodraeth Cynulliad Cymru am fwy o oedolion cymwys gyda gwell cymwysterau, mae angen i fwy o oedolion ymroi i ddysgu gydol oes sy'n arwain at gymwysterau. Fel cam cyntaf, mae llawer yn debygol o ymroi'n fwy parod ar lefel leol i gyfleoedd dysgu yn y gymuned i oedolion.

Nifer y dysgwyr ar raglenni dysgu yn y gymuned i oedolion

Mae'n anodd canfod niferoedd y dysgwyr sy'n ymwneud â dysgu yn y gymuned i oedolion. Mae diffyg diffiniad cyson o ddysgu yn y gymuned i oedolion ac absenoldeb trefniadau casglu data cyffredin yn ei gwneud yn anodd i lunio barn ddibynadwy am dueddiadau yn nifer a lleoliad y dysgwyr mewn gwahanol fannau o'r system. Yn ôl ei natur, mae trefniadau ar gyfer dysgu yn y gymuned i oedolion yn aml yn anffurfiol. Mae Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru [2], (mis Mai 2003) yn dangos yr oedd 16,231 o oedolion wedi'u cofrestru mewn canolfannau addysg i oedolion a gynhelir gan AALl yn ystod 2002-03, sef ffigwr sy'n dangos gostyngiad o 12% ers 2001-02. Dengys hefyd fod nifer y canolfannau sy'n cynnig dysgu yn y gymuned i oedolion wedi gostwng o 289 i 260 yn ystod yr un cyfnod. Darperir ar gyfer 11,500 o oedolion pellach drwy sefydliadau a gynorthwyir gan awdurdodau lleol. Mae ystadegau'r Cyngor Cenedlaethol yn nodi bod tua 32,000 o oedolion yn cyfranogi mewn dysgu yn y gymuned i oedolion yng ngwanwyn 2003, wedi'i ddarparu gan awdurdodau lleol drwy gytundebau partneriaeth gyda sefydliadau addysg bellach.

[1] Jane Davidson AC, Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, 'Y Wlad sy'n Dysgu; Rhaglen Addysg a Dysgu Gydol Oes Gynhwysfawr i 2010 yng Nghymru', mis Awst 2001. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn agwedd gynhwysfawr at adfywio ardaloedd sy'n berthnasol i lawer o gymunedau mwyaf difreintiedig Cymru. Cafodd ei chyhoeddi ym mis Mawrth 2000.

Mewn mannau eraill yn y system, bu datblygiadau allweddol mewn cyfleoedd dysgu i oedolion, er enghraifft rhaglenni'r Brifysgol i Ddiwydiant a Chymunedau yn Gyntaf. Mae nifer sylweddol o oedolion hefyd yn dysgu drwy ddarpariaeth allymestyn gan golegau addysg bellach, a thrwy ddarparwyr dysgu yn y gwaith. Mae sefydliadau addysg uwch yn darparu rhaglenni addysg barhaus i oedolion ar gyfer niferoedd sylweddol. Mae'r darlun cymhleth a darniog hwn yn ei gwneud yn anodd sefydlu sylfaen ddibynadwy ar gyfer nifer yr oedolion sy'n ymwneud â dysgu yn y gymuned i oedolion.

Mae Bwletin Ystadegau Gwladol 2003 yn nodi bod gan Gymru'r ail ganran uchaf o oedolion heb gymwysterau yn y DU. Mae Bwletin Ystadegol Rhagfyr 2003 yn rhoi gwybodaeth bellach am y cynnydd a wnaed wrth gyrraedd y targedau dysgu gydol oes a osodwyd yn 'Y Wlad sy'n Dysgu'. Mae'n casglu bod 'gan Gymru cyfran uwch o oedolion o oedran gwaith sydd heb gymwysterau o'i chymharu â Lloegr a'r Alban' a bod 50% o oedolion heb gymwysterau yn ddi-waith.[1] Mae *Pobl, Lleoedd, Dyfodol – Cynllun Gofodol Cymru* yn amlygu sefyllfa wahanol iawn oedolion sy'n byw mewn gwahanol rannau o Gymru, o ran eu cymwysterau blaenorol.

Patrymau darpariaeth presennol

Wrth fapio darpariaeth dysgu yn y gymuned i oedolion ledled Cymru, dangosir amrywiaethau eang yn natur a chwmpas y ddarpariaeth ar hyd y wlad. Mae adolygiad y Cyngor Cenedlaethol - ELWa o ddysgu yn y gymuned i oedolion a gyflwynir drwy awdurdodau lleol yng Nghymru (2003) yn amlinellu anghydraddoldeb yn yr adnoddau y mae awdurdodau lleol yn eu derbyn i gyflwyno dysgu yn y gymuned i oedolion [1]. Mae'r trefniadau presennol ar gyfer casglu data ar gyfer dysgu yn y gymuned i oedolion yn ei gwneud yn anodd iawn arfarnu perfformiad y sector a'r darparwr. Mae gan wahanol awdurdodau a sefydliadau wahanol ddulliau o gasglu data ac, yn aml, byddant yn defnyddio categorïau nad ydynt yn cyd-fynd.

Yng Nghymru, y rhain yw 22 awdurdod lleol, 22 o golegau addysg bellach ac ystod eang o sefydliadau gwirfoddol, gan gynnwys Cymdeithas Addysg y Gweithwyr a'r YMCA. Mae'r gwahanol sectorau hyn yn derbyn arian gan awdurdod lleol neu ELWa i fodloni anghenion dysgwyr lleol. Mae 15 awdurdod lleol yn gweithio mewn partneriaeth gyda'u colegau lleol i sicrhau bod dysgu yn y gymuned i oedolion ar gael drwy drefniadau trydydd parti. Yn ogystal, mae sefydliadau addysg uwch yn sicrhau bod darpariaeth sylweddol o addysg barhaus i oedolion ar gael. Mewn llawer o ardaloedd, bydd mwy nag un sefydliad addysg uwch yn darparu. Ni chafodd gwaith y sefydliadau addysg uwch hyn eu cynnwys yn yr arolwg hwn oherwydd ei fod y tu allan i gylch gorchwyl arolygu Estyn.

Mae ELWa yn adolygu dysgu yn y gymuned i oedolion er mwyn datblygu fframwaith polisi ar gyfer darpariaeth dysgu yn y gymuned i oedolion yng Nghymru.

Caiff manylion pellach am nodweddion dysgu yn y gymuned i oedolion eu cynnwys yn Atodiad 2.

[1] Bwletin Swyddfa Ystadegau Gwladol, Rhagfyr 2003 (SB 115/2003)

3. Prif ganfyddiadau

Ehangu cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion

- Ceir enghreifftiau da o fentrau sy'n arddangos arfer dda wrth ehangu cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion yng Nghymru. Er bod ychydig ddata meincnodi ar gael i fesur eu heffaith, mae'r rhaglenni hyn yn ymestyn i gymunedau ac yn denu dysgwyr o grwpiau cymdeithasol nad ydynt wedi elwa o gyfleoedd addysgol o'r blaen.

- Nid oes fframwaith polisi cyffredinol ar gyfer dysgu yn y gymuned i oedolion ar lefel genedlaethol neu leol y gellir datblygu o'i fewn. O ganlyniad, mae darpariaeth yn ddarniog ac yn anghyson ledled Cymru.

- Nid yw darparwyr yn mapio darpariaeth llawer ar draws ardaloedd lleol er mwyn nodi cyfleoedd ar gyfer ehangu neu drefniadau partneriaeth. Mae'r ystod o lifau ariannu yn golygu bod cydlynu yn anodd.

- Mae absenoldeb trefniadau casglu data cyffredin yn ei gwneud yn anodd i ddarparwyr a chyrff cenedlaethol lunio barn ddibynadwy am dueddiadau yn nifer a lleoliad dysgwyr mewn gwahanol rannau o'r system a pherfformiad y sector wrth ehangu cyfranogiad.

- Wrth gymryd camau i nodi anghenion dysgwyr anhraddodiadol, mae'r darparwyr gorau'n nodi'n glir pa sector o'r farchnad maent yn ei dargedu a'r anghenion y maent yn bwriadu eu bodloni. Fodd bynnag, ychydig ddarparwyr yn unig sy'n defnyddio proffiliau cymunedol neu wybodaeth leol arall am y farchnad yn effeithiol.

- Er bod nifer o ymgyrchoedd â phroffil uchel i hyrwyddo dysgu i oedolion yn genedlaethol, nid yw'r rhain bob amser yn cysylltu'n agos â'r ddarpariaeth sydd ar gael yn lleol. Ar lefel leol, mae gwaith hyrwyddo yn amrywio'n ddiangen o ran ansawdd ac effeithiolrwydd.

- Yn aml, darperir dysgu yn y gymuned i oedolion drwy bartneriaethau rhwng dau sefydliad neu fwy. Mae'r partneriaethau mwyaf cyffredin a mwyaf rhwng awdurdodau addysg lleol a cholegau addysg bellach. Mae llawer o fuddion yn deillio o'r partneriaethau hyn. Fodd bynnag, er bod trefniadau felly'n rhoi'r cyfle am ymagwedd strategol wedi'i chryfhau i nodi a bodloni anghenion dysgwyr sy'n oedolion yn y gymuned, yn ymarferol, nid yw cynllunio strategol yn adeiladu'n effeithiol ar y cyfleoedd posibl a gynigir gan y partneriaethau.

- Mewn rhai ardaloedd, codwyd disgwyliadau a dyheadau dysgwyr newydd, ond ni fu'n bosibl cynnal rhaglenni a phrosiectau yn y tymor canolig i'r tymor hir. O ganlyniad, mae dysgwyr newydd wedi colli hyder i raddau, ar ôl goresgyn rhwystrau sylweddol i gymryd rhan o bosib, a chael eu harwain at amau eu cyfleoedd dysgu yn y dyfodol.

Cyflawniad dysgwyr

- Yn gyffredinol, mae dysgwyr ar raglenni dysgu yn y gymuned i oedolion yn gwneud cynnydd da yn sgil eu hymrwymiad. Mae cyfran dda yn cwblhau cymwysterau, yn aml am y tro cyntaf. Nid yw eraill yn sicrhau canlyniadau wedi'u hachredu, ond maent yn ennill medrau pwysig sy'n eu helpu ar y llwybr i ddysgu pellach. Yn benodol, maent yn ennill hyder a hunan-barch. Fodd bynnag, ni chaiff cynnydd y dysgwyr hyn o fewn y system ei olrhain yn dda ac mae tystiolaeth o ddilyniant yn tueddu bod yn anecdotaidd.

- Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau a gynigir gan awdurdodau lleol yn arwain at ganlyniad wedi'i achredu, yn aml drwy Rwydwaith y Coleg Agored. Mae hyn yn rhoi profiad i ddysgwyr o gwblhau dysgu ac ennill cymhwyster. Mae'r cyrsiau hyn, a'r trefniadau achredu, yn galluogi dysgwyr i weithio ar eu cyflymder a'u lefel gallu eu hunain. Mae hyn yn bwysig iawn i oedolion heb unrhyw brofiad blaenorol o weithio tuag at ennill cymwysterau.

- Lle cynigir dysgu sydd heb gael ei gynllunio i arwain at gymwysterau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni nodau eraill ac yn aml yn mynegi'r cyflawniadau hyn yn glir. Fodd bynnag, yn anaml yn unig y caiff y rhain eu cofnodi'n ffurfiol fel nodau.

Ansawdd addysgu ac asesu

- Ar y cyfan, mae ansawdd addysgu ac asesu'n dda ac mae rhywfaint yn dda iawn. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o wahanol strategaethau i gynnal diddordeb a chyfranogiad dysgwyr mewn dosbarthiadau. Mae bron pob athro'n ymwybodol fod gan lawer o ddysgwyr newydd lefel uchel o ansicrwydd ac mae athrawon yn cymryd camau effeithiol i oresgyn hyn.

Cymorth i ddysgwyr

- Yn aml, mae angen cymorth ac anogaeth helaeth ar oedolion sy'n dychwelyd i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn sylweddoli bod angen arnynt bolisïau a gweithdrefnau cymorth dysgwyr effeithiol er mwyn ehangu cyfranogiad. Pan gynigir cymorth, mae o ansawdd da yn gyffredinol, ond yn aml mae mewn perygl oherwydd ansicrwydd yr adnoddau sydd ar gael.

Arweinyddiaeth a rheolaeth

- Mae diffyg fframwaith cenedlaethol cyffredinol ar gyfer dysgu yn y gymuned i oedolion, ac ansicrwydd ynghylch ariannu, yn gwanhau arweinyddiaeth a rheolaeth strategol dysgu yn y gymuned i oedolion ym mron pob ardal.

- Mae darparwyr sy'n ehangu cyfranogiad mewn addysg i oedolion yn effeithiol yn gyfarwydd â'r agendâu cenedlaethol ar gyfer cynhwysiad cymdeithasol a dysgu gydol oes ac maent yn gweithio'n galed i'w gwireddu. Mae sawl awdurdod lleol wedi ailstrwythuro i ganiatáu i'w adran gwasanaethau cymunedol oedolion fodloni'r agendâu hyn yn well.

- Ceir ychydig arweinyddiaeth strategol o ddysgu yn y gymuned i oedolion ar lefel CCAH leol. Mae amrywiaeth o rwydweithiau proffesiynol ac eraill ledled Cymru fel grŵp Prif Swyddogion Awdurdod Lleol a'r Rhwydwaith Rheolwyr Allymestyn a gefnogir gan fforwm yn rhoi cymorth gwerthfawr i ddarparwyr a chyfleoedd rhwydwaith defnyddiol.

Gwella ansawdd

- Mae llawer o ddarparwyr ar gyfnod cynnar o ddatblygu eu trefniadau sicrhau ansawdd. Mae'r mecanweithiau ansawdd a ddefnyddiant yn amrywio'n eang yn ôl hanes y sefydliad. Ceir amrywiaethau eang yn y graddau y maent yn datblygu ansawdd yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn llunio hunanasesiadau blynyddol, ond nid yw'r rhain bob tro'n cynnwys yr holl faterion.

- Ychydig ddarparwyr sy'n dadansoddi'n effeithiol y data cyfyngedig sydd ar gael am gyfraddau cadw, cwblhau a chyrhaeddiad dysgwyr. Mae ansawdd gwael y data'n ei gwneud yn anodd mesur i ba raddau y mae'r ddarpariaeth yn bodloni anghenion grwpiau newydd o ddysgwyr.

- Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio holiaduron yn effeithiol i bennu lefelau bodlonrwydd dysgwyr ac i nodi meysydd am welliant pellach. Yn yr ychydig achosion gorau, mae llwybr clir rhwng ymatebion i holiaduron a'r canolfan yn gweithredu i wella'i darpariaeth. Fodd bynnag, mewn llawer o achosion, ceir ychydig dystiolaeth fod y darparwr wedi ymateb i'r materion a godwyd.

Defnyddio adnoddau

- Yn gyffredinol, mae darparwyr yn deall bod ehangu cyfranogiad yn rhoi pwysau newydd a thrwm ar adnoddau. Mae llawer ohonynt wedi cael gafael ar adnoddau i ddarparu mathau newydd o wasanaethau cymorth i ddysgwyr anhraddodiadol, gan gynnwys gofal plant, cludiant a chymorth dysgu. Mae llawer hefyd wedi datblygu arddulliau o weithio sy'n aml yn golygu grwpiau llai ac addysgu mwy dwys sy'n fwy costus. Mae'r adnoddau sy'n ariannu'r datblygiadau hyn yn gymhleth ac yn aml yn rai tymor byr. Mae hyn yn cyfyngu'r gwaith datblygu mewn ardaloedd lleol sy'n angenrheidiol i ddiogelu'r amgylchiadau ar gyfer ehangu cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion.

- Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff athrawon eu hyfforddi a'u lleoli'n effeithiol i fodloni anghenion dysgwyr newydd. Fodd bynnag, mae'r rhan fwyaf o athrawon yn gweithio'n rhan-amser ac mae gan hyn oblygiadau ar gyfer datblygu'r sector o ran eu hargaeledd ar gyfer hyfforddiant a digwyddiadau.

Adeiladau ac adnoddau dysgu

- Mae darparwyr yn defnyddio ystod eang o adeiladau i gyflwyno dysgu yn y gymuned i oedolion. Yn aml, mae'n rhaid i drefnwyr gydbwyso pwysigrwydd darparu cwrs yn lleol yn erbyn anaddasrwydd yr adeiladau sydd ar gael, yn enwedig lle mae angen offer neu adnoddau arbenigol.

- Caiff llawer o'r mentrau arbennig i ehangu cyfranogiad eu cyflwyno mewn lleoliadau anhraddodiadol. Mae'r rhain yn cynnwys neuaddau eglwys a chymunedol lleol, ystafelloedd mewn tafarndai, canolfannau hamdden a siopau stryd fawr wedi'u haddasu. Mae dysgwyr newydd yn hoffi'r lleoliadau hyn gan nad oes ganddynt gysylltiadau â dysgu aflwyddiannus y gorffennol.

- Mae gan lawer o ganolfannau arbenigol amrywiaeth eang o adnoddau dysgu ar gael. Wrth i athrawon ddod yn fwy medrus wrth ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau addysgu, maent yn defnyddio mwy o fideos neu gymhorthion gweledol eraill. Mae'r twf yn y galw am gyrsiau technoleg gwybodaeth sylfaenol wedi annog llawer o ddarparwyr i fuddsoddi mewn gliniaduron symudol.

4. Arfer dda wrth nodi a bodloni anghenion dysgwyr newydd

Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr dysgu yn y gymuned i oedolion yn cydnabod yr angen i ehangu cyfranogiad ac yn cymryd camau i geisio cyrraedd grwpiau newydd o ddysgwyr. Mae cynlluniau strategol a gweithredol yn dangos ymwybyddiaeth o'r angen i gyrraedd dysgwyr o'r fath a rhywfaint o ddealltwriaeth o'r rhwystrau y bydd angen eu goresgyn er mwyn i ddysgwyr newydd gyfranogi'n weithgar mewn dysgu.

Wrth geisio ehangu cyfranogiad, mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn ceisio nodi'r anghenion dysgu arbenigol sydd gan grwpiau penodol o gleientiaid ac yn darparu mathau newydd o raglenni a gweithgareddau dysgu i fodloni'r anghenion hyn. Byddant yn gwneud hyn drwy:

- trefnu darpariaeth mewn lleoliadau cymunedol sy'n agos i ble mae pobl yn byw ac yn gweithio, ac ar amseroedd pan fydd dysgwyr yn debygol o fod ar gael;
- darparu gofal plant a mathau eraill o gymorth i ddysgwyr;
- gweithio trwy asiantaethau statudol a gwirfoddol i gyrraedd dysgwyr newydd;
- hyrwyddo dysgu mewn gwahanol ffyrdd, er enghraifft drwy ragflas a chyfleodd dysgu anffurfiol;
- cynllunio a hyrwyddo rhaglenni sy'n ddeniadol ac yn ddifyr;
- siarad â grwpiau o ddysgwyr posibl i'w helpu nodi eu hanghenion dysgu;
- ceisio hyrwyddo dysgu mewn ffyrdd diddorol;
- sicrhau bod addysgu o ansawdd uchel; a
- datblygu cyfleoedd dysgu o bell drwy ddysgu ar-lein.

Wrth gymryd camau i nodi anghenion dysgwyr anhraddodiadol, mae'r darparwyr gorau'n nodi'n glir pa sector o'r farchnad y maent yn ei dargedu a'r anghenion y maent yn bwriadu eu bodloni. Yn aml, mae ganddynt gysylltiadau da â'r gymuned a chyda sefydliadau yn y gymuned fel elusennau, tenantiaid lleol a grwpiau preswylwyr a Phryderon y Gymuned. Fodd bynnag, dim ond ychydig ddarparwyr sy'n defnyddio proffiliau cymuned neu wybodaeth leol arall am y farchnad yn effeithiol. Nid oes digon ohonynt yn gweithio'n ddigon agos gydag adrannau awdurdod lleol eraill fel y Gwasanaethau Cymdeithasol, Llyfrgelloedd, Adrannau Tai ac adrannau Datblygiad Economaidd.

Mae diffyg data cyson ar draws dysgu yn y gymuned i oedolion a diffyg dilynol meincnodau a thargedau yn ei gwneud yn anodd i lunio casgliadau am y graddau y mae gweithgareddau presennol yn ehangu cyfranogiad. Mae Bwletin Ystadegol Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mai 2003, yn amlygu'r anghydraddoldeb mewn mynediad i gyfleoedd dysgu ar hyd Cymru. Mae'n dangos:

- bod gan ddysgwyr yng nghanolbarth a gogledd Cymru ddewis mwy cyfyngedig o gyrsiau nag yn ne a de orllewin Cymru;

- mai menywod yw ychydig dros dri chwarter o'r dysgwyr sy'n mynychu cyrsiau;

- mai ychydig ddynion sy'n cael eu denu i ddysgu yn y gymuned; a

- dim ond nifer fechan o ddynion a menywod 19-40 oed sy'n ymwneud â dysgu yn y gymuned i oedolion.

Er mai ychydig ddata meincnodi sydd ar gael, ceir llawer o enghreifftiau da o raglenni sy'n ymestyn i gymunedau ac yn denu dysgwyr o grwpiau cymdeithasol sydd heb elwa ar gyfleoedd addysgol o'r blaen. Mae'r ymagweddau a fabwysiadir isod yn enghreifftiau da o strategaethau a dargedir yn dda a gynlluniwyd i ehangu cyfranogiad.

Datblygu strategaeth ddysgu i deuluoedd

Mae un awdurdod lleol wedi datblygu menter sy'n ymwneud â mynd i'r afael â lefelau medrau sylfaenol gwael ymhlith oedolion lleol sydd ag ychydig gymwysterau os o gwbl. Mae'n cyflwyno'r fenter hon drwy strategaeth ddysgu i deuluoedd, gan weithio'n agos â'r coleg lleol ac ysgolion cynradd. Mae'r awdurdod wedi blaenoriaethu'r ardaloedd daearyddol hynny lle y teimla fod yr angen mwyaf, ac mae'n canolbwyntio'i adnoddau yn yr ardaloedd hyn. Seiliwyd y blaenoriaethu'n bennaf ar asesiad o lefelau amddifadedd cymdeithasol lleol, ond ystyriwyd hefyd raddau presennol cyfleoedd dysgu a'r nifer sy'n manteisio arnynt ar hyn o bryd. Mae hyn wedi arwain at gynllunio strategol a gweithredol o ansawdd gwell. Nodir bod oedolion gydag ychydig gymwysterau neu ddim o gwbl yn byw mewn ardaloedd penodol. Mae hyn yn caniatáu darparwyr i roi'r ddarpariaeth briodol mewn lleoliad sy'n hygyrch i'r rheiny nad ydynt yn ymwneud â dysgu.

Defnyddio "canolfannau gweithredu lleol"

Er mwyn denu mwy o ddysgwyr, mae awdurdod arall yn darparu bron ei holl addysg yn y gymuned i oedolion drwy nifer o'r hyn a elwir yn 'ganolfannau gweithredu lleol'. Mae gan bob canolfan ei rheolwr ei hun sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaeth sy'n seiliedig ar anghenion lleol, o fewn cynllun strategol trosfwaol yr awdurdod. Mae rheolwyr y canolfannau'n cysylltu'n uniongyrchol â chynrychiolwyr cymunedol ac yn eu cyfarfod er mwyn cynllunio'r hyn a ddarperir yn eu canolfan leol. Golyga hyn fod cynlluniau datblygu lleol yn cyd-fynd yn agos ag anghenion lleol a bod y dysgu a ddarperir yn cael ei deilwra ar gyfer y gymuned leol.

Partneriaethau rhwng awdurdodau lleol a cholegau addysg bellach

Yn aml, caiff dysgu yn y gymuned i oedolion ei ddarparu drwy bartneriaethau rhwng dau sefydliad neu fwy. Mae'r partneriaethau mwyaf cyffredin a mwyaf rhwng awdurdodau addysg lleol a cholegau addysg bellach. Mae'r rhain yn cynnal rhaglenni sylweddol o ddysgu yn y gymuned i oedolion sydd, yn gyffredinol, o safon dda, ond yn aml â natur eithaf traddodiadol. Daw llawer o fuddion o'r partneriaethau hyn. Fodd

bynnag, yn anaml y byddant yn cynnwys unrhyw fapio ffurfiol o ddarpariaeth neu'n nodi cyfleoedd ar gyfer ehangu a dargedir. Er bod trefniadau o'r fath yn rhoi'r posibilrwydd ar gyfer ymagwedd strategol wedi'i chryfhau o nodi a bodloni anghenion dysgwyr sy'n oedolion yn y gymuned, nid yw cynllunio strategol yn adeiladu ar y cyfleoedd sydd ar gael, yn ymarferol. O ganlyniad, mae llwybrau dilyniant ar gyfer dysgwyr i mewn i ddarpariaeth addysg bellach yn aml yn wan ac ychydig barhad a geir o ran y cwricwlwm.

Darpariaeth arbenigol a marchnata penodol

Sefydliadau bach yw llawer o ddarparwyr dysgu yn y gymuned i oedolion ac, fel arfer, mae eu nod yn eithaf penodol, yn aml yn deillio o anghenion dysgu grŵp penodol o bobl, neu angen cyffredin mewn perthynas â'u sefyllfa fywyd. Er enghraifft, ymwelwyd ag un ganolfan sy'n elusen a sefydlwyd yn ystod streic y glowyr yn yr 1980au cynnar i roi cyfleoedd i fenywod gael addysg, hyfforddiant a chyngor am ddechrau busnes. Ehangwyd y ganolfan yn yr 1980au hwyr i gwmpasu darpariaeth gofal plant, hyfforddiant a gwasanaethau swyddfa. Erbyn hyn, mae'r ganolfan yn cynnig arweiniad ac addysg a hyfforddiant i ehangu cyfranogiad ar draws pob sector. Mae'n gweithio'n effeithiol ar y cyd ag ystod eang o sefydliadau partner i fodloni anghenion y gymuned leol ac mae bellach yn cynnig ystod o ddarpariaeth sy'n ymestyn o lefel fynediad i waith lefel gradd uwch.

Defnyddio proffiliau cymuned

Ychydig ddarparwyr o ddysgu yn y gymuned i oedolion sy'n defnyddio proffiliau cymuned neu wybodaeth leol arall am y farchnad yn effeithiol, er enghraifft ystadegau awdurdod lleol ar wardiau etholiadol. Mae'r mwyafrif yn dibynnu ar gysylltiadau da â'r gymuned a sefydliadau yn y gymuned. Defnyddiant y cysylltiadau hyn i nodi cyfleoedd i gyflwyno dysgu ac i fodloni anghenion lleol gwirioneddol. Fodd bynnag, yn anaml y mae dulliau o'r fath mor effeithiol â defnyddio proffiliau cymuned.

Mewn un awdurdod, mae'r adran data canolog yn casglu gwybodaeth ar gyfer adeiladu proffiliau cymuned ac yn rhoi'r proffiliau hyn i'r swyddogion sydd yn gyfrifol am ganolfannau lleol. Disgwylir i'r swyddogion lleol hyn lunio dadansoddiad o'u hanghenion eu hunain, drwy gynnal cyfweliadau gyda sampl o'r boblogaeth leol. Wrth ddadansoddi canlyniadau'r cyfweliadau hyn, gall y swyddog lleol ystyried yr anghenion hynny a nodir yn uniongyrchol gan atebwyr o ganlyniad i'r cwestiynau a ofynnir. Mae hyn yn galluogi swyddogion lleol i ddarparu ar gyfer anghenion lleol ac unigol yn well.

Mapio'r ddarpariaeth bresennol

Mae awdurdod arall wedi cwblhau ymarferiad mapio ar hyd y sir, gan gadarnhau ble mae'r ddarpariaeth addysg a hyfforddiant bresennol a nodi ble mae bylchau. Fodd bynnag, nid yw eto wedi gweithredu o ganlyniad i ganfyddiadau'r ymarferiad mapio. Ar y cyfan, darganfu'r arolwg, yn gyffredinol, fod ychydig fapio effeithiol o ddarpariaeth, naill ai ar lefel leol neu genedlaethol.

Nodi anghenion drwy raglenni Cymunedau yn Gyntaf

Mae arfer effeithiol wrth ehangu cyfranogiad yn nodwedd ar lawer o brosiectau Cymunedau yn Gyntaf. Yn aml, mae'r prosiectau hyn yn cynnwys penodi gweithiwr prosiect amser llawn sy'n gweithio gyda'r bobl leol ac yn nodi'r dysgu yr hoffent, yn ogystal â helpu cynllunio a chyflwyno'r dysgu. Mae defnyddio gweithwyr o'r fath yn bwysig wrth nodi'n fanwl anghenion dysgu'r presennol a'r dyfodol o fewn ardaloedd lleol ac felly'n arwain at well cynllunio lleol. Er mwyn denu dysgwyr, mae'r dysgu hwn weithiau'n anffurfiol iawn, er enghraifft gall y grŵp fynd i'r sinema a thrafod y ffilm wedyn. Mewn achosion eraill, mae'n llawer mwy ffurfiol. Er enghraifft, mewn un prosiect a ariannwyd gan Cymunedau yn Gyntaf, cynigiwyd cyfle i 11 o bobl leol hyfforddi ac ennill cymwysterau i ddod yn weithwyr cymunedol. Mae'r dysgwyr yn mynychu'r cyngor lleol i wasanaethau gwirfoddol er mwyn ymgymryd â'r hyfforddiant hwn. Ni waeth a ydynt yn anffurfiol neu'n ffurfiol, mae'r enghreifftiau hyn o ddysgu, wedi'u targedu ar anghenion a diddordebau unigol, yn effeithiol wrth ddenu a chadw dysgwyr newydd.

Mewn ardal Cymunedau yn Gyntaf arall, mae'r coleg lleol yn ceisio cymryd rhan, gyda llwyddiant cymysg. Gan gydnabod bod rhaid i dau o bob tri aelod o grwpiau llywio Cymunedau yn Gyntaf fod o'r gymuned leol ac un o bob tri yn unig o sefydliadau statudol, mae'r coleg yn gwirfoddoli staff i ymuno ag is-grwpiau prosiectau. Fodd bynnag, mae grwpiau cymunedol lleol wedi gwrthwynebu'r strategaeth hon, gan eu bod yn amau'r coleg i raddau ac yn teimlo ei fod yn ceisio cymryd eu gweithgareddau drosodd at ei ddibenion ei hun. Mewn gwahanol ran o Gymru, cafodd coleg arall ei amau mewn modd tebyg pan geisiodd gyntaf ddatblygu cysylltiadau â'i grwpiau cymunedol lleol. Fodd bynnag, drwy helpu'r grwpiau'n gyson i gyflawni eu hamcanion dros gyfnod a thrwy ddefnyddio gweithwyr lleol, yn hytrach na'i staff ei hun, mae'r coleg wedi llwyddo sefydlu lefel o ymddiriedaeth a chydweithrediad sydd wedi arwain at ddarparu ystod eang o addysg i oedolion yn yr ardal. Cafodd ei theilwra'n effeithiol i fodloni anghenion lleol ac i ddenu dysgwyr newydd.

Nodi a bodloni anghenion drwy bartneriaethau sector gwirfoddol

Mae gan lawer o sefydliadau bartneriaethau effeithiol ar gyfer cyflwyno dysgu. Mae hyn yn benodol o wir yn y sector gwirfoddol, lle bydd sawl sefydliad yn gweithio ar y cyd, yn aml drwy gydlynu'r cyngor lleol ar gyfer gwasanaeth gwirfoddol. Mewn un ardal, mae'r cyngor lleol ar gyfer gwasanaeth gwirfoddol wedi'i sefydlu ers amser ac yn brofiadol. Yn yr achos hwn, mae'r cyngor yn ehangu cyfranogiad drwy weithio gydag amrywiaeth o sefydliadau partner i gyflwyno ystod eang o ddysgu sy'n anelu at fodloni anghenion yr ardal leol yn effeithiol. Mae'n cyflogi 51 aelod o staff ac yn gweithio gyda mwy na 200 o sefydliadau gwirfoddol partner, yn ogystal â sefydliadau addysg bellach ac addysg uwch lleol. Mae iddo gynllun datblygu ar gyfer hyfforddiant sy'n cynnwys ystod eang o weithgareddau sy'n amrywio o ddysgu ffurfiol i weithgareddau y mae'n enwi'n 'dysgu dawel'. Mae'r cyngor yn darparu'r hyfforddiant ar gyfer ystod o'r rheiny sy'n gysylltiedig â sefydliadau gwirfoddol lleol, gan gynnwys y rheiny sy'n ymwneud â datblygiad cymunedol drwy gynllun Cymunedau yn Gyntaf. Mae'r cyngor hefyd yn rhedeg cynlluniau sy'n cyflwyno hyfforddiant ar ran y bartneriaeth mynediad i ddysgu leol ac mae'n gyfrifol am gyflwyno'r Prosiect

Cymorth Cenedlaethol ar gyfer medrau sylfaenol mewn sefydliadau gwirfoddol a chymunedol.

Cyswlltdysgu

Mae rhai sefydliadau, yn enwedig y colegau addysg bellach, yn hynod effeithiol wrth ehangu cyfranogiad drwy ymwneud â Chyswlltdysgu. Mewn rhai achosion, byddant yn gwneud hyn drwy eu safleoedd allymestyn canol dref presennol. Mewn achosion eraill, caiff safleoedd newydd eu hagor. Wrth ddatblygu Cyswlltdysgu, mae pob coleg yn gweithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill. Fel arfer, mae hyn yn cynnwys y cwmni gyrfaoedd lleol a'r awdurdod lleol, yn ogystal â sefydliadau lleol penodol eraill. Mae pob partneriaeth Cyswlltdysgu wedi llunio cynllun datblygu. Mae rhai o'r cynlluniau hyn yn uchelgeisiol iawn. Gosodwyd targed gan Gyswlltdysgu i'r holl bartneriaethau anelu at gofrestru 1% o'r boblogaeth leol ar gyrsiau Cyswlltdysgu. Fodd bynnag, awgryma rhai partneriaethau fod hyn yn afrealistig, tra bod eraill ar y trywydd i gofrestru canran lawer uwch o'r boblogaeth leol.

Defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu fel magnet i ddysgu

Mae un coleg wedi ehangu cyfranogiad yn llwyddiannus drwy agor seibercaffis mewn sawl canolfan siopa leol a chynnig i bobl ragflas am ddim o'r dysgu sydd ar gael. Mae'r rheiny sy'n dangos diddordeb yn cael eu hannog i gymryd y Drwydded Yrru Gyfrifiadurol Ewropeaidd fel cyflwyniad am ddim i Gyswlltdysgu a dysgu cyfrifiadurol. Mae'r un coleg yn gweithio'n agos â chwmnïau bach a chanolig er mwyn cynnig dysgu i weithwyr ar eu cyflymdra eu hunain, yn eu hamgylchedd gwaith eu hunain a dysgu sy'n bodloni anghenion eu cyflogwyr. Mae hefyd yn trafod sefydlu canolfan Cyswlltdysgu o fewn adeiladau cyflogwr lleol mawr iawn.

Yn yr enghraifft hon, mae'r coleg wedi mynd â chyfleoedd dysgu i'r lleoedd lle ceir dysgwyr posibl. Mae wedi agor canolfannau yn y gymuned mewn mannau lle mae pobl yn ymgynnull ac wedi cynnig cyfle iddynt gael blas ar y dysgu am ddim. Hefyd, mae wedi mynd â chyfleoedd dysgu i'r gweithle a llwyddo sicrhau cymorth cyflogwyr ar gyfer y dysgu hwn.

Hyrwyddo dysgu i oedolion

Yn gyffredinol, mae sefydliadau cenedlaethol yn darparu ymgyrchoedd proffil uchel i ddysgu i oedolion. Mae ELWa, yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol a Cyswlltdysgu i gyd yn ymwneud â gweithgareddau marchnata cenedlaethol pwysig. Mae NIACE Dysgu Cymru yn trefnu ymgyrch proffil uchel ledled Cymru ar ffurf Wythnos Addysg Oedolion. Mae'r ymgyrch flynyddol, sefydlog hon, a gefnogir gan ELWa, yn dathlu cyflawniadau dysgwyr sy'n oedolion, ac yn denu cyfranogiad a chymorth llawer o ddarparwyr a dysgwyr yn effeithiol ar lefel genedlaethol. Mae'n hynod effeithiol wrth hyrwyddo'r agwedd diddordeb dynol ar gyflawniad dysgwyr. Yn lleol, ceir amrywiaeth eang yn y modd y cysyllta darparwyr â'r ymgyrchoedd hyn a delio â'r cyfeiriadau a ddaw ohonynt. Ceir amrywiaethau eang yn ansawdd ac effeithiolrwydd gweithgareddau hyrwyddo lleol. Yn yr achosion gorau, mae deunydd deniadol ar gael sy'n addas i ddysgwyr, defnydd da o'r wasg leol a digwyddiadau hyrwyddo gan gynnwys arddangosfeydd a diwrnodau agored. Fodd bynnag, ceir amrywiaeth eang yn yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer y gweithgareddau hyn a lefel yr arbenigedd

sydd ar gael yn lleol. Yn yr achos gorau, mae rhwydwaith lleol “â bathodyn” sy’n gysylltiedig â’r Consortiwm Cymunedol lleol ar gyfer Addysg a Hyfforddiant yn darparu fframwaith cydlynol ar gyfer cyhoeddi trefniadau lleol.

5. Arfer dda wrth hyrwyddo cyflawniad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion

Yn gyffredinol, bydd dysgwyr ar raglenni dysgu yn y gymuned i oedolion yn gwneud cynnydd da o ganlyniad i'w hymrwymiad. Mae cyfran dda'n cwblhau cymwysterau, yn aml am y tro cyntaf. Nid yw eraill yn sicrhau canlyniadau wedi'u hachredu, ond byddant yn ennill medrau pwysig sy'n eu helpu ar y ffordd i ddysgu pellach. Yn benodol, maent yn ennill hyder a hunan-barch. Fodd bynnag, ni chaiff cynnydd y dysgwyr hyn yn y system ei olrhain yn dda ac mae tystiolaeth o ddilyniant yn tueddu bod yn anecdotaidd.

Mae'r rhan fwyaf o gyrsiau a gynigir gan awdurdodau lleol yn arwain at ganlyniad achrededig. Yn aml, mae'r canlyniad hwn drwy Rwydwaith y Coleg Agored (OCN). Mae hwn yn rhoi'r profiad i ddysgwyr newydd gwblhau dysgu ac ennill cymhwyster. Mae'r cyrsiau hyn a'r trefniadau achredu'n caniatáu i ddysgwyr weithio ar eu cyflymder a'u lefel gallu eu hunain. Mae hyn yn bwysig iawn i oedolion sydd heb unrhyw brofiad blaenorol o weithio tuag at ennill cymwysterau.

Astudiaeth achos 1: Cyflawniad dysgwyr mewn dosbarth celf:

Mewn un dosbarth celf, mae 20 o ddysgwyr wedi cofrestru, sydd bron i gyd yn ddysgwyr dros 50 oed ac ychydig dros hanner ohonynt yn fenywod. Maent yn frwdfrydig ac yn falch o'r hyn y maent yn ei gyflawni. Mae'r mwyafrif heb wneud unrhyw beintio na darlunio ers gadael yr ysgol. Mae eu gwaith o safon dda. Maent i gyd yn cwblhau unedau OCN ar lefel sy'n briodol i'w hanghenion. Ar ôl iddynt sicrhau eu hunedau OCN presennol, bwriad sawl un yw symud ymlaen i ddosbarthiadau uwch. Mae dysgwyr yn cyflawni safonau da o waith, yn ennill cymwysterau ac yn dangos uchelgais cryf i symud ymlaen i astudiaethau uwch.

Datblygu medrau allweddol

Mae un awdurdod lleol yn datblygu achrediad o'r medrau allweddol ehangach o weithio gydag eraill a gwella dysgu a pherfformiad y dysgwr ei hun. Mae'r rhain yn fedrau hanfodol i'r rheiny sy'n dymuno gwneud cynnydd yn eu dysgu neu chwilio am gyflogaeth. Cynigir y cyfle hwn drwy'r ddarpariaeth gyfan ac ochr yn ochr â chymwysterau eraill. Mae'r awdurdod yn annog ei holl athrawon addysg yn y gymuned ac addysg i oedolion i adolygu eu cyrsiau a, thrwy gynllunio, nodi cyfleoedd i ddysgwyr ddangos hyfedredd yn y medrau allweddol ehangach hyn. Wedyn, mae'r awdurdod yn gofyn i'w athrawon ymgorffori cyfleoedd ychwanegol lle mae'n briodol, i alluogi dysgwyr i ennill cymwysterau'n llwyddiannus ar gyfer y medrau allweddol sydd ganddynt eisoes.

Astudiaeth achos 2: Dysgwyr sy'n cyflawni medrau allweddol ehangach drwy ddosbarth coginio:

Bydd dysgwyr yn astudio yn ystod y dydd mewn dosbarth coginio. Mae naw o ddysgwyr ar hyn o bryd, pob un ohonynt yn cymryd unedau OCN Lefel 3 mewn coginio. Maent yn adeiladu portffolio o dystiolaeth o'r medrau allweddol ehangach o weithio gydag eraill a gwella'u dysgu a'u perfformiad eu hunain. Mae'r dysgwyr rhwng 45 a 70 oed, a'r mwyafrif yn ddynion. Mae rhai ohonynt wedi colli partneriaid ac yn dysgu coginio ar gyfer eu hunain am y tro cyntaf.

Maent wedi gwneud cynnydd da. Mae'r mwyafrif wedi mynychu am dair blynedd ac wedi symud ymlaen o lefel 1 i'w lefel bresennol. Bwriad un dysgwr yw defnyddio'i medrau mewn cyflogaeth yn y maes arlwyo. Mae eisoes yn cael comisiynau arlwyo bach. Defnyddia dysgwr arall ei fedrau i baratoi prydau ar gyfer ei wyrion/wyresau pan fydd yn gofalu amdanynt yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r holl ddysgwyr yn gadarnhaol am y dosbarth, gan bwysleisio ei fod wedi gwella'u medrau, eu hunanhyder a'u hansawdd bywyd. I rai, bu'n gymorth amhrisiadwy iddynt addasu i newidiadau mawr yn eu bywydau. Byddant yn mwynhau dysgu coginio, ond yn ystyried bod y cyfle i gael achrediad ar gyfer y medrau allweddol ehangach yn fonws annisgwyl, ond un y maent yn ei groesawu'n fawr. Cawsant hefyd fuddion cymdeithasol a chymunedol o gymryd rhan.

I'r dysgwyr hyn, mae llwyddo i gael cymwysterau, dilyniant yn eu dysgu, ac ennill dyfarniadau achrededig mewn medrau allweddol yn fuddion pwysig allweddol.

Cyflawniad mewn dysgu na achredwyd

Lle cynigir dysgu sydd heb ei gynllunio i arwain at gymwysterau, mae'r rhan fwyaf o ddysgwyr yn cyflawni nodau eraill. Ceir tystiolaeth o'r cynnydd hwn mewn trafodaeth, astudiaethau achos, asesiadau athrawon, cofnodion ffotograffaidd a fideo, gwaith ysgrifenedig a thystiolaeth bersonol. Mae dysgwyr yn sôn am fodloni heriau wrth ymgymryd â gweithgareddau newydd, goresgyn ofnau wrth wynebu hen bryderon ac ennill medrau sy'n ychwanegu meysydd newydd ar gyfer mwynhad a thwf personol. Maent yn siarad am eu balchder wrth gyfranogi a chyflawni mewn prosiectau grŵp, gwibdeithiau ac arddangosfeydd. Gwelir cynnydd penodol, er enghraifft, mewn sesiynau dysgu i deuluoedd lle bydd oedolion yn mwynhau dysgu gyda'u plant ac ar eu cyfer, gan gael cyfleoedd i ailgynnau eu dysgu eu hunain yn amgylchedd cefnogol y grŵp. Yn aml, mae'r nodau amgen yn ymwneud â chynyddu hyder a medrau rhyngbersonol dysgwyr a datblygu eu gallu i symud ymlaen gyda'u dysgu. Gall cyflawniadau gynnwys dod yn rhiant-lywodraethwr, cymryd rhan mewn cynllun chwarae neu ddigwyddiad cymunedol lleol, ymgeisio am swydd ran-amser a'i chael, neu gymryd cyfrifoldeb o fewn prosiect cymunedol lleol.

Dim ond yn anaml y caiff y nodau amgen hyn eu cofnodi'n ffurfiol neu eu gosod fel targedau i'r dysgwr, er bod athrawon weithiau'n ymwybodol o'r canlyniadau a fwriedir.

Astudiaeth achos 3: Paratoi ar gyfer cyflogaeth:

Mae prosiect a gynigir mewn un awdurdod yn anelu at baratoi dynion di-waith tymor hir ar gyfer ailgyflogiad. Cynlluniwyd y prosiect yn ofalus i apelio at y grŵp targed a'u diddordebau. Mae'n cynnig cyfle i gyfranogwyr fynychu sesiynau dyddiol mewn canolfan hamdden leol. Caiff sesiwn y bore ei dreulio yn ystafell ffitrwydd y ganolfan, lle bydd dysgwyr yn dilyn rhaglen i ddatblygu eu ffitrwydd personol. Maent yn treulio'r prynhawn mewn lleoliad mwy ffurfiol. Cynhelir hwn ym mar y ganolfan hamdden ac mae'n cynnwys sesiynau lle bydd y dysgwyr yn datblygu medrau mewn cyfathrebu a chwilio am swydd ac yn gweithio'n gyffredinol ar y medrau rhyngbersonol sy'n angenrheidiol i ennill a chadw cyflogaeth.

Nid yw'r prosiect wedi'i gynllunio i alluogi dysgwyr i gyflawni cymwysterau ffurfiol o ganlyniad i'w cyfranogiad, ond maent i gyd yn falch â'u cynnydd, ac yn synnu arno, ac yn pwysleisio eu bod wedi elwa o gymryd rhan. Mae eu hunan-barch a'u cymhelliad i chwilio am gyflogaeth wedi gwella. Mae swyddog datblygu'r prosiect hefyd yn falch gyda'r canlyniadau. Mae sawl dysgwr wedi sicrhau cyfweliadau ar gyfer cyflogaeth o ganlyniad i'w cyfranogiad ac mae gan eraill gynlluniau datblygedig iawn i symud ymlaen i amgylchedd dysgu mwy strwythuredig a allai arwain at gyflogaeth. Yn ogystal, bu llawer yn treulio'u dyddiau yn ynysig, yn gwylio'r teledu heb lawer o gyfle i gyfarfod ag eraill. Maent wedi elwa'n fawr o'r cymorth a ddaw yn sgil ymaelodi â grŵp ac wedi mwynhau dysgu gyda'i gilydd a chael budd ohono.

Parhau i gymryd rhan

Yn gyffredinol, mae presenoldeb ar draws darpariaeth dysgu yn y gymuned i oedolion yn dda. Nid yw llawer o'r dysgwyr wedi cyfranogi mewn lleoliadau o'r fath ers amser maith, ac efallai y bu ganddynt gofnodion presenoldeb gwael yn yr ysgol. Mae'r athrawon gorau'n defnyddio dulliau hyblyg ac yn ystyried cefndiroedd eu dysgwyr. Ni fyddant yn gorfodi disgwyliadau am bresenoldeb a phrydlondeb yn gadarn, ond yn siarad â dysgwyr yn unigol pan fydd problem. Yn aml, mae hyn yn annog y dysgwr i wneud ymdrech ychwanegol ac i wella. Mae niferoedd yn aml yn isel, yn enwedig mewn dosbarthiadau a gynigir gan y sectorau gwirfoddol ac awdurdod lleol. Mae hyn yn caniatáu'r rheiny sydd â diffyg hyder i gynnal perthynas resymol gyda chymheiriaid ac yn eu hannog i fynychu bob wythnos. Bydd athrawon yn aml yn ymdrechu'n sylweddol i alluogi dysgwyr i gynnal eu dysgu, gan gynnig sesiynau dal i fyny ychwanegol, darparu nodiadau a deunyddiau ychwanegol, a bod mor hyblyg â phosibl yn eu gofynion i alluogi dysgwyr i barhau.

6 Arfer dda wrth addysgu ac asesu mewn dysgu yn y gymuned i oedolion

Ar y cyfan, mae ansawdd addysgu ac asesu'n dda ac mae rhywfaint yn dda iawn. Mae athrawon yn defnyddio amrywiaeth o wahanol strategaethau i gynnal diddordeb a chyfranogiad dysgwyr mewn dosbarthiadau. Mae bron pob athro'n ymwybodol bod gan llawer o ddysgwyr lefel uchel o ansicrwydd ac mae athrawon yn cymryd camau effeithiol i oresgyn hyn.

Astudiaeth achos 4: Addysgu effeithiol mewn dosbarth nos cyfrifiadureg:

Mae'r dosbarth yn rhan o gwrs 'cyfrifiaduron i'r rhai sy'n dychryn', a gynhelir mewn ysgol uwchradd leol gyda'r nos. Mae'r athrawes yn adnabod ei dysgwyr yn dda. Roedd wedi dechrau dod i adnabod eu dyheadau a'u pryderon drwy fynychu eu cofrestriad cychwynnol, pan ofynnodd iddynt lenwi holiadur yn ymdrin â'u dysgu blaenorol a'u meddyliau a'u pryderon cyn dechrau'r cwrs.

Yn ystod y sesiwn, mae'n defnyddio ystod dda o ymarferion a gynllunir yn ofalus i ddarparu ar gyfer gwahanol lefelau arbenigedd a hyder y dysgwyr. Mae'r ymarferion yn cyd-fynd yn dda ag anghenion y myfyrwyr unigol. Drwy gydol y wers, mae'r dysgwyr yn dangos hyder wrth ofyn am gymorth pan fyddant yn cael problemau'n gweithio drwy'r ymarferion. Mae'r athraws yn rhoi cymorth o ansawdd uchel i ddysgwyr, gyda hiwmor da ac anogaeth. Pan fydd yn briodol, mae'n cyfeirio at nodiadau'r dysgwr o sesiynau blaenorol ac yn dangos sut i ddefnyddio'u nodiadau i ddarganfod yr hyn sy'n ofynnol gan yr ymarferiad newydd.

Yn yr achos hwn, mae'r athrawes yn llunio asesiad sylfaen cywir o'u dysgwyr yn gynnar ac yn cynllunio'r dysgu yn dda er mwyn bodloni eu hanghenion unigol.

Newid amgyffrediad dysgwyr o ddysgu a goresgyn pryderon

Nodwedd gryf ar rai dosbarthiadau yw'r modd y cânt eu cynllunio i newid amgyffrediad dysgwyr o ddysgu. Mae hyn yn benodol o wir pan fydd dysgu'n cael ei gynnig yn y gymuned. Yn y sesiynau hyn, mae athrawon yn gofalu eu bod yn mabwysiadu dull anffurfiol sy'n annog dysgwyr i gyfranogi mewn sesiynau a'u mwynhau. Mae'r athrawon yn defnyddio ymagweddau arloesol sy'n wahanol i'r rheiny y mae'n debygol i'r dysgwyr eu profi yn ystod addysg orfodol. Yn aml, mae'r sesiynau hyn yn digwydd y tu allan i fannau dysgu traddodiadol, gan ddefnyddio lleoliadau fel neuaddau cymunedol, canolfannau hamdden ac ystafelloedd wedi'u llogi mewn tafarndai. Fel arfer, mae'r lleoliadau hyn yn fannau cyfarwydd nad yw'r dysgwr yn eu cysylltu â'u dysgu blaenorol a lle byddant yn teimlo'n gysurus. Yn aml, mae'r lleoliadau yn agos i'r man y mae'r dysgwr yn byw ynddo.

Astudiaeth achos 5: Dysgu anffurfiol llwyddiannus mewn clwb mam a phlentyn bach:

Mae'r grŵp yn cyfarfod am ddwy awr yr wythnos mewn neuadd gymunedol sy'n eiddo i eglwys leol. Mae'r grŵp yn cynnwys 11 o fenywod. Mae deg ohonynt yn rieni ac un yn famgu. Mae sesiwyn yn cyfuno rôl gymdeithasol a chynhaliol draddodiadol grŵp mam a phlentyn bach gydag elfen o ddysgu teulu anffurfiol. Yn benodol, mae'r grŵp yn edrych ar baratoi'r plant bach ar gyfer yr ysgol feithrin ac yn helpu'r mamau i ddeall sut y mae plant yn dysgu.

Mae'r athrawes yn athrawes addysg oedolion ran-amser brofiadol gyda chymwysterau mewn datblygiad plant. Defnyddia'i phrofiad yn effeithiol i gynnal awyrgylch anffurfiol, gan bwysleisio 'na fyddent yn dod petaent yn meddwl mai dosbarth oedd hi'. Ond, ar ôl iddynt gael y profiad o fod yn ddysgwyr llwyddiannus, maent yn fwy tebygol o symud ymlaen i ddysgu arall.

Cydbwyso her a chysur i ddysgwyr

Llwydda'r rhan fwyaf o athrawon i gynnal cydbwysedd priodol rhwng herio dysgwyr newydd i fynd â'u dysgu ymhellach a sicrhau eu bod yn teimlo'n ddiogel a chysurus yn yr amgylchedd dysgu. Yn aml, byddant yn gwneud hyn drwy ddefnyddio'r un rhaglen o weithgareddau a strwythurir yn ofalus mewn sesiynau, ond yn eu hymestyn yn raddol fel bod athrawon yn herio dysgwyr gyda gwaith sy'n llai cyfarwydd ac yn fwy anodd wrth iddynt ennill mwy o hyder a sicrwydd. Golyga hyn y gall pob dysgwr newydd symud ymlaen ar gyflymdra sy'n addas iddynt. Wrth i ddysgwyr ddechrau wneud cynnydd a gweld eu llwyddiant, mae athrawon yn dechrau eu hannog i feddwl am gofrestru ar gyfer cymwysterau.

Adnabyddiaeth gychwynnol o anghenion

Mae'r athrawon mwyaf effeithiol yn nodi anghenion dysgwyr yn gywir ar ddechrau'r cwrs. Lle mae'n bosibl, yn enwedig mewn cyrsiau celf a chrefft, mae athrawon yn trafod yn gynnar gyda dysgwyr i gytuno'r pynciau y byddant yn ymdrin â hwy yn ystod y flwyddyn. Fel arfer, mae athrawon sy'n mabwysiadu'r ymagwedd hon yn dangos llawer o hyblygrwydd ac yn dyheu'n frwd i annog dysgwyr i gyfranogi. Mae athrawon felly yn sefydlu ac yn cynnal cyfathrebu cadarnhaol ac yn rhoi adborth i unigolion o gyfnod cynnar i sicrhau bod dysgwyr yn parhau i gysylltu a bod y dysgu'n bodloni eu hanghenion unigol. Maent hefyd yn gofalu eu bod yn trafod y ffordd ymlaen i ddysgu yn y dyfodol gyda dysgwyr ar amseroedd addas drwy gydol y cwrs, ond yn enwedig tuag at ddiwedd y cwrs. Mae gan rai darparwyr staff cynghori arbenigol sydd ar gael i siarad â dysgwyr am ddilyniant.

Astudiaeth achos 6: Arweiniad arbenigol ar gyfer dilyniant ar ddiwedd y cwrs:

Mewn un darparwr awdurdod lleol, mae gweithiwr arweiniad arbenigol ar gael i ddysgwyr drafod eu dysgu. Fe'i leolir yn un o'r canolfannau addysg i oedolion lleol, ond mae'n gweithio ar draws yr holl ganolfannau yn yr ardal lle cyflwynir cyrsiau ar ran yr awdurdod. Mae gan y gweithiwr arweiniad gysylltiadau da gyda'r cwmni gyrfaoedd, y coleg addysg bellach leol, sefydliadau sector gwirfoddol lleol, gwasanaethau cymdeithasol ac adrannau eraill o'r cyngor. Mae'n helpu dysgwyr i nodi'r cwrs cywir ar eu cyfer cyn iddynt gofrestru ac yn eu helpu i ystyried llwybrau dilyniant posibl tuag at ddiwedd y cyrsiau.

Yn yr achos hwn, gall y darparwr gynnig cymorth ymarferol i ddysgwyr drwy roi arweiniad a chyngor diduedd ar gyfer dilyniant ac mae'n gwneud cysylltiadau effeithiol gyda phartneriaid eraill sy'n darparu cyrsiau priodol.

7 Arfer dda wrth ddarparu gofal, arweiniad a chymorth i ddysgwyr newydd

Bodloni anghenion cymorth dysgwyr

Yn aml, mae angen cymorth ac anogaeth helaeth ar oedolion sy'n dychwelyd i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn sylweddoli bod angen arnynt bolisïau a gweithdrefnau effeithiol ar gyfer cymorth dysgwyr er mwyn ehangu cyfranogiad. Yn yr achosion gorau, mae'r cymorth hwn yn dechrau ymhell cyn i'r dysgwr gofrestru, gyda chyfleoedd i ddysgwyr posibl gwrdd â'r athro, neu reolwr y ganolfan, a siarad am yr hyn a fyddai'n digwydd petaent yn ymuno â grŵp. Bydd y drafodaeth yn aml yn ymdrin â materion fel nodi anghenion a diddordebau y dysgwr posibl, trafod pa gyrsiau sydd ar gael, eu cynnwys a'u harddulliau addysgu, a dod o hyd i'r cwrs sy'n gweddu orau i anghenion unigol y dysgwr. Mewn canolfan ddysgu i oedolion un awdurdod lleol, mae rheolwraig y ganolfan, neu ei chynorthwy-ydd, yn cyfweld â phob dysgwr posibl cyn iddynt gofrestru ar unrhyw gwrs. Pan fydd dysgwr yn ymddangos yn ansicr am yr hyn yr hoffai ei wneud, bydd yr un sy'n cyfweld yn cynnig cyfle iddo gael cyfweliad manwl pellach gyda gweithiwr arweiniad yr awdurdod lleol.

Nodi'r camau nesaf ar gyfer dysgu

Mewn rhywfaint o ddarpariaeth, mae rôl yr athro neu reolwr y ganolfan yn ymestyn i gyfweld â'r dysgwyr tuag at ddiwedd eu rhaglenni, gan eu helpu i nodi cyfleoedd dilyniant a chyrsiau eraill a allai fod o ddiddordeb. Mae gan ychydig ddarparwyr, rhai awdurdodau lleol fel arfer, weithwyr arweiniad arbenigol ar gael sy'n gallu siarad â dysgwyr a'u helpu i nodi'r camau nesaf. Mae gan rai darparwyr gysylltiadau effeithiol â'r cwmni gyrfaoedd, ond mae'r rhain yn wan mewn llawer o ddarparwyr. Mewn llawer o achosion, ni chaiff llwybrau dilyniant eu nodi'n glir neu, mewn rhai achosion, nid ydynt ar gael. Mae strwythurau ariannol a chyflwyno cymhleth a diffyg cynllunio lleol effeithiol rhwng darparwyr mewn llawer o achosion yn golygu bod elfennau allweddol o'r rhwydwaith dysgu ar goll yn aml o fewn ardal teithio i ddysgu resymol.

Bodloni anghenion grwpiau cleient penodol

Mae rhai sefydliadau, yn aml elusennau, yn rhoi cymorth i grwpiau gydag anghenion penodol yn unol â'u diben drwy ddarparu cyfleoedd dysgu arbenigol. Yn aml, bydd y sefydliad yn gofyn i ddarparwr dysgu gyflwyno'r dysgu hwn. Un enghraifft o'r ymagwedd hon yw'r ddarpariaeth Saesneg ar gyfer siaradwyr ieithoedd eraill, a gynigir gan awdurdod addysg lleol yn swyddfeydd Cyngor Ffoaduriaid Cymru. Fel arfer, lle cafwyd y ddarpariaeth hon ar gais penodol gan sefydliad, mae'r sefydliad yn awyddus iddi lwyddo. Mewn achosion felly, mae athrawon yn gweithio'n agos gyda'r sefydliad ac yn ymwybodol o'r cymorth sydd gael i ddysgwyr y tu allan i'r dosbarth.

Cefnogi dysgwyr gydag anableddau

Mae un darparwr yn cynnal prosiect sy'n gweithio gyda dysgwyr anabl, drwy ddefnyddio arian Ewropeaidd. Darperir cludiant i alluogi dysgwyr i deithio o'r cartref

i'r ganolfan, fel y gallant fynychu'r sesiynau. Yn aml, mae angen cymorth ychwanegol ar y dysgwyr, fel rhywun i arwyddo neu i gyfieithu dogfennau i Braille. Mae'r grŵp yn uchel eu cymhelliant ac mae llawer o ddysgwyr wedi cwblhau unedau OCN yn llwyddiannus. Mae'r dysgwyr hyn hefyd yn cyfrannu at gyrsiau eraill a gynigir gan y darparwr drwy wneud cyflwyniadau effeithiol i wneud eraill yn fwy ymwybodol o'r materion sy'n wynebu pobl anabl.

Astudiaeth achos 7: Darparu ar gyfer dysgwyr gydag anghenion cymorth unigol mewn ysbyty lleol:

Mae un darparwr yn cyflwyno ystod o gyrsiau i ddysgwyr gydag anawsterau iechyd meddwl mewn ysbyty lleol. Mae gan y darparwr gydlynydd amser llawn yn yr ysbyty, sy'n gweithio'n agos gyda'r therapyddion galwedigaethol arbenigol a'r staff meddygol i adnabod dysgwyr posibl. Wedyn, mae'n cynnig arweiniad anffurfiol i'r bobl i'w helpu i nodi eu diddordebau a'u hanghenion dysgu.

Sefydlir gweithgareddau wedi'u teilwra i fodloni diddordebau ac anghenion y dysgwyr, gan gynnwys trin gwallt, cyfrifiadureg a dosbarthiadau garddio. Mae'r athrawon yn cydweddu eu haddysgu ag anghenion y dysgwyr yn ofalus, ond mae'r cydlynydd hefyd yn annog dilyniant. Er enghraifft, dechreuodd un sesiwn fel karaoke ond datblygodd i roi sylw i anghenion medrau sylfaenol wrth i ddysgwyr ddefnyddio cyfrifiaduron i ddylunio ac argraffu eu cardiau Nadolig eu hunain. O'r dechreuadau bychain hyn, mae nifer o ddysgwyr wedi symud ymlaen i ddysgu pellach.

8 Effeithiolrwydd arweinyddiaeth a rheolaeth strategol wrth ehangu cyfranogiad

Gweithio'n unol ag agendâu cenedlaethol i ehangu cyfranogiad

Mae'r holl ddarparwyr sy'n ehangu cyfranogiad yn effeithiol mewn addysg i oedolion yn wybodus iawn am yr agendâu cenedlaethol ar gynhwysiad cymdeithasol a dysgu gydol oes. Maent yn defnyddio'u gwybodaeth yn effeithiol i sicrhau eu bod yn anelu at gynnwys y rheiny sy'n ei chael yn anodd i gymryd rhan mewn dysgu. Mae sawl awdurdod lleol wedi ailstrwythuro er mwyn caniatáu i'w hadrannau gwasanaethau cymunedol ac oedolion fodloni'r agendâu hyn yn well; yn benodol, i ddod â hamdden, dysgu yn y gymuned a llyfrgelloedd ynghyd o dan un adran. Mae llawer o'r awdurdodau hyn wedi sefydlu targedau penodol ar gyfer ehangu cyfranogiad i gyd-fynd â'r ailstrwythuro hyn, sy'n eu caniatáu i fesur pa mor effeithiol y bu. Fodd bynnag, nid oes unrhyw fframwaith cenedlaethol cyffredinol ar gyfer dysgu yn y gymuned i oedolion, ac mae ansicrwydd ynghylch ariannu cymwys yn gwanhau rheolaeth strategol ar ddysgu yn y gymuned i oedolion ym mron pob ardal. Caiff llawer o'r cynlluniau hyn eu paratoi ar wahân.

Mewn rhai Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant, ceir rhwydwaith datblygol cryf o ddarparwyr dysgu yn y gymuned i oedolion sy'n ceisio datblygu trefniadau cynllunio a chyflwyno mwy systematig ar gyfer y ddarpariaeth hon. Mewn nifer fach o achosion, caiff y rhain eu gwella gan ymglymiad sefydliadau addysg uwch sy'n darparu addysg barhaol i oedolion. Fodd bynnag, mewn mannau eraill, ychydig arweinyddiaeth strategol a geir ar ddysgu yn y gymuned i oedolion ar lefel CCAH leol. Mae rhychwant o rwydweithiau proffesiynol ac eraill ledled Cymru, fel grŵp Prif Swyddogion Awdurdodau Lleol a'r Rhwydwaith Rheolwyr Allymestyn a gefnogir gan *fforwm,* yn darparu cymorth gwerthfawr ar gyfer darparwyr a chyfleoedd rhwydwaith defnyddiol. Mae sefydliadau fel NIACE Dysgu Cymru a Dysg, yr Asiantaeth Datblygu Dysgu a Sgiliau, yn darparu rolau arweinyddiaeth arbenigol a brwdfrydig, ond mae diffyg fframwaith strategol clir ar gyfer datblygu gwasanaeth yn cyfyngu'n sylweddol ar eu gwaith.

Cynnal y weledigaeth ar lefel leol

Mae gan y rhan fwyaf o ddarparwyr genhadaeth glir i hyrwyddo dysgu i oedolion. Mae rhai, er enghraifft adrannau dysgu gydol oes awdurdodau lleol, yn ran o sefydliadau mwy ac mae eu cenadaethau'n deillio o genhadaeth y rhiant gorff. Yn aml, drwy weithio gyda'r sefydliadau mwy hyn, mae canolfannau lleol wedi sefydlu eu nodau eu hunain o fewn nod strategol cyffredinol eu hadran. Pan fyddant yn gwneud hyn, mae gwaith y ganolfan leol yn adlewyrchu anghenion penodol yr ardal a'r bobl sy'n byw yn eu hardal yn well, gan arwain at nifer fwy yn manteisio ar y ddarpariaeth.

Astudiaeth achos 8: Nodau lleol canolfan addysg i oedolion:

Mae un ganolfan addysg i oedolion yn ran o adran dysgu gydol oes awdurdod lleol mawr. Mae gan yr awdurdod ddatganiad cenhadaeth sefydledig ac mae gan yr adran nodau strategol a nodir yn glir sy'n gysylltiedig â hyn. Mae rheolwr y ganolfan wedi cyfrannu at y nodau hyn ac yn eu cyfathrebu'n dda i'r holl staff, gan gynnwys athrawon rhan-amser, er mwyn iddynt weld sut bydd eu gwaith yn cyfrannu at fodloni'r nodau a'r genhadaeth.

Datblygwyd gweledigaeth leol hefyd gan reolwr y ganolfan, sef bod y ganolfan yn datblygu'n ran annatod o'r gymuned. Ei bwriad yw y bydd y ganolfan addysg i oedolion yn datblygu'n bwynt cyswllt cyntaf pan fydd menter newydd yn ymddangos. I'r perwyl hwn, mae'n gweithio'n agos gydag arweinwyr cymunedol lleol a chyrff cynrychioliadol. Bu llawer o'r datblygiadau mwy diweddar yn y ganolfan mewn ymateb i ofynion uniongyrchol gan y gymuned. O ganlyniad, mae'r ganolfan bellach bron yn llawn ac mae'r rheolwr yn edrych ar ymestyn y ddarpariaeth i leoliadau eraill i fodloni'r galw.

Er bod darparwyr yn aml defnyddio'r amrywiaeth o lifau arian digyswllt yn dda er mwyn cynnig dysgu sy'n bodloni anghenion lleol penodol, ceir ychydig gydlynu o ran gweithgaredd a datblygu ar y cyd, a gwaethygir y nodwedd hon gan nifer y gwahanol ffyrdd o sicrhau arian. Felly, ceir perygl o ailadrodd darpariaeth mewn rhai achosion, a bylchau mewn darpariaeth mewn achosion eraill.

Astudiaeth achos 9: Ariannu a phartneriaeth rhwng awdurdod lleol a sefydliadau lleol eraill:

Mewn un awdurdod lleol, caiff dysgu yn y gymuned i oedolion ei gynllunio o fewn fframwaith cynllun strategol yr awdurdod lleol. Caiff hyn, yn ei dro, ei gydweddu â'r cynllun CCAH lleol. Mae'r awdurdod wedi datblygu Cynllun Dysgu Oedolion drafft. Fodd bynnag, petai'r awdurdod yn dibynnu ar arian gan ELWa yn unig, byddai'n annhebygol y gallai gyflwyno'r cynllun. Mae swyddogion felly'n edrych am arian ychwanegol gan ffynonellau Ewropeaidd, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau lleol eraill a defnyddio'r cysylltiadau a sefydlwyd drwy'r CCAH.

Yn yr achosion gorau, gall gweledigaeth glir wedi'i chryfhau gan arbenigedd medrus ac entrepreneuraidd rheolwyr oresgyn ychydig o'r anawsterau o leiaf sy'n deillio o ansicrwydd am ariannu, y fframwaith strategol gwan a natur ddarniog y ddarpariaeth. Fodd bynnag, yn y rhan fwyaf o ddarparwyr, mae'r ffactorau hyn yn cyfyngu datblygiad ac yn effeithio ar ansawdd a chynaladwyedd dysgu yn y gymuned i oedolion yn yr ardal, gydag effaith ddilynol ar ddysgwyr.

Ariannu tymor byr

Dim ond am gyfnod penodol y mae llawer o ffynonellau arian yn cefnogi prosiectau. Fel arfer, mae'r cyfnod hwn yn ddwy flynedd, ond weithiau'n llai na hynny. O ganlyniad, mae'n rhaid i lawer o reolwyr dreulio llawer o'u hamser yn nodi ffynonellau arian posibl ac yn ysgrifennu ceisiadau amdano. Ar gyfer sefydliadau llai, gall yr amser a dreulir yn ysgrifennu ceisiadau fod yn anghyfartal mewn perthynas â'r dyletswyddau eraill sy'n ofynnol gan y rheolwr. Yn yr achosion gorau, mae darparwyr

yn ymateb i hyn drwy ddatblygu partneriaethau gweithio effeithiol. Yn y partneriaethau hyn, gall rhai unigolion ganolbwyntio ar ysgrifennu'r holl geisiadau am arian. Bydd hyn yn rhoi'r cyfle iddynt ysgrifennu sawl cais, i ddatblygu dealltwriaeth o ofynion y sefydliadau sy'n rhoi grantiau amrywiol, ac arbenigedd wrth ysgrifennu yn unol â'u gofynion. Yn aml, bydd hyn yn arwain at gyfradd lwyddiant fwy pan gyflwynir ceisiadau.

Trefniadau trydydd parti/ rhyddfraint

Ar hyn o bryd, mae nifer o awdurdodau a nifer fechan o sefydliadau gwirfoddol yn cael arian gan y Cyngor Cenedlaethol drwy golegau addysg bellach. Cafodd y rhan fwyaf o'r trefniadau hyn eu cyflwyno er mwyn cynnal parhad darpariaeth ar ôl Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992. Er eu bod yn darparu ffyrdd o gyfeirio arian a'r potensial ar gyfer gwella dilyniant dysgwyr, datblygiad staff a chwricwlwm a gwella nodau strategol y ddau bartner, yn anaml y sylweddolir posibiliadau llawn y trefniadau hyn. O ganlyniad, maent yn parhau'n sianeli ar gyfer arian yn bennaf yn hytrach na ffyrdd allweddol o sicrhau ac adeiladu rhwydweithiau dysgu effeithiol. Er bod y berthynas rhwng partneriaid yn gyffredinol dda, ceir gwahaniaethau eang yn y swm a gymerir gan golegau ar gyfer gwasanaethau canolog. Yn dechnegol, cyfrifoldeb y coleg yw ansawdd, er bod y cyfrifoldeb hwn yn aml yn aneglur yn ymarferol.

9 Datblygu ansawdd ar gyfer dysgwyr newydd

Lle mae dysgu yn y gymuned i oedolion yn fwyaf effeithiol, mae'r darparwr yn gwybod:

- yr hyn y mae'n anelu at ei wneud;
- pa ddysgwyr y mae'n eu targedu;
- a yw'n bodloni ei nodau'n llwyddiannus ai peidio;
- yr hyn sydd angen ei gynnal neu wella;
- a yw newidiadau'n gweithio ai peidio; ac
- mae ganddo fecanweithiau i sicrhau gwella ansawdd yn barhaol.

Trefniadau sicrhau ansawdd

Mae llawer o ddarparwyr yng nghyfnod cynnar datblygu eu trefniadau sicrhau ansawdd. Mae'r mecanweithiau ansawdd a ddefnyddiant yn amrywio'n fawr o ran hanes a chefndir y sefydliad a'r graddau y maent yn datblygu eu heffeithiolrwydd. Mae'r rhan fwyaf o ddarparwyr yn llunio hunanasesiadau blynyddol, ond nid yw'r rhain bob amser yn ymdrin â'r holl faterion. Ychydig ddarparwyr sy'n dadansoddi'n effeithiol y data cyfyngedig a geir am gyfraddau cadw, cwblhau a chyrhaeddiad dysgwyr. Mae ansawdd gwael y data'n ei gwneud yn anodd mesur i ba raddau y mae'r gwasanaeth yn bodloni anghenion grwpiau newydd o ddysgwyr.

Sicrhau ansawdd mewn darpariaeth a wneir drwy drefniadau trydydd parti rhwng colegau ac awdurdodau lleol

Gwneir llawer o'r ddarpariaeth dysgu yn y gymuned i oedolion drwy drefniadau trydydd parti gyda cholegau addysg bellach lleol. Y coleg sy'n gyfrifol am sicrhau ansawdd yr holl gyrsiau a gynigir dan drefniadau felly. Yn yr achosion gorau, mae'r colegau'n gwneud hyn yn effeithiol ac yn effeithlon, gan weithio'n agos gyda'r darparwr yn y gymuned leol i helpu iddynt ddeall a gweithredu dogfennaeth sicrhau ansawdd a allai fod yn eithaf cymhleth.

Trefniadau sicrhau ansawdd cymhleth

Mae darparwyr eraill yn datblygu eu systemau sicrhau ansawdd eu hunain. Gweithredant y rhain ar draws eu darpariaeth gyfan, gan gynnwys unrhyw waith trydydd parti. Mae hyn yn hynod effeithiol lle mae'r darparwr yn gweithredu sawl cytundeb trydydd parti sy'n mynd ar draws gwahanol fethodolegau a disgwyliadau ariannu. Er enghraifft, mae un canolfan gymunedol leol yn cynnig cyrsiau ar ran y coleg addysg bellach lleol, adran dysgu gydol oes y brifysgol leol ac adran dysgu gydol oes yr awdurdod lleol. Mae'r ganolfan hefyd yn rhedeg sawl cwrs yn y gymuned a gefnogir gan arian Ewropeaidd. Mae un coleg yn darparu drwy drefniadau trydydd parti gyda phum awdurdod lleol. Mae gan un awdurdod

drefniadau trydydd parti gyda dau goleg ac felly'n cynnal dwy set o drefniadau sicrhau ansawdd ochr yn ochr â threfniadau ar gyfer yr holl ardaloedd eraill y mae'n darparu ar eu cyfer.

Astudiaeth achos 10: Sicrhau ansawdd mewn awdurdod lleol:

Mae un awdurdod lleol yn datblygu un fframwaith ansawdd ar gyfer ei holl ddysgu yn y gymuned. Hefyd, mae'n datblygu llawlyfr defnyddiol i helpu rheolwyr canolfannau ac athrawon i weithredu'r fframwaith, sy'n berthnasol i bob darpariaeth trydydd parti, a gyflwynir ar ran dau goleg lleol, yn ogystal â'i ddarpariaeth ei hun.

Mae'r fframwaith yn cael ei ddatblygu o hyd. Er y cesglir data am gofrestriadau, dilyniant a chyrchfannau dysgwyr dan y fframwaith, ni chaiff ei ddefnyddio'n llawn i helpu mesur perfformiad. Fodd bynnag, mae rheolwyr gweithredol yn trafod materion ansawdd yn rheolaidd yn eu cyfarfodydd misol ac maent yn defnyddio dadansoddiad data'n fwy pan fydd ar gael.

Defnyddio holiaduron dysgwyr

Mae llawer o ddarparwyr yn defnyddio holiaduron yn effeithiol i bennu lefelau bodlonrwydd dysgwyr ac i nodi meysydd ar gyfer gwelliant pellach. Yn aml, cefnogir yr holiaduron hyn gan gyswllt anffurfiol a ffurfiol gan reolwr y ganolfan neu staff arall gydag unrhyw rai sy'n gadael yn gynnar. Yn yr achosion gorau, ceir llwybr clir rhwng atebion i holiaduron a'r ganolfan yn gweithredu i wella ei darpariaeth. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, ceir ychydig dystiolaeth yn unig bod y darparwr wedi ymateb i'r materion a godwyd.

10 Arfer dda wrth reoli a defnyddio adnoddau

Yr adnoddau sydd ar gael

Yn gyffredinol, mae darparwyr yn deall bod ehangu cyfranogiad yn rhoi pwysau newydd a thrwm ar adnoddau. Maent wedi chwilio, yn aml yn llwyddiannus, am adnoddau i ddarparu mathau newydd o wasanaethau cymorth i ddysgwyr anhraddodiadol, gan gynnwys gofal plant, cludiant a chymorth dysgu. Maent wedi datblygu arddulliau o weithio sy'n aml yn golygu grwpiau llai ac addysgu mwy dwys. Fodd bynnag, mae'r adnoddau hyn yn gymhleth ac yn aml yn ansicr. Mae darparwyr yn jyglo llawer o botiau arian gwahanol.

Mae adolygiad ELWa o ddysgu yn y gymuned i oedolion a gyflwynir drwy awdurdodau lleol yng Nghymru (2003) yn amlinellu'r anghydraddoldeb yn yr adnoddau a ddyrannwyd yn hanesyddol gan awdurdodau lleol i ddysgu yn y gymuned i oedolion. Er enghraifft, o gyllideb gyfan o £4,721,000 i Gymru, mae un awdurdod wedi dyrannu £1,362,000 tra bod dau arall wedi dyrannu £3000 yn unig. Mae adroddiad diweddar Canolfan Meincnodi Syniad (Gorffennaf 2003) yn nodi gostyngiad sylweddol o 47% mewn adnoddau a ddyrennir gan awdurdodau lleol ar gyfer dysgu yn y gymuned i oedolion rhwng 1996 a 2003. Mae dysgwyr hefyd yn wynebu gwahanol gostau ar gyfer eu dysgu ledled Cymru.

Dibynna llawer o ddarparwyr ar sicrhau incwm gan ELWa, yn aml drwy gytundebau trydydd parti gyda cholegau lleol. Mae eraill yn defnyddio'r Gronfa Cyfleoedd Newydd, a ariennir gan y Loteri, yn effeithiol, yn enwedig pan fo'r dysgu bwriadedig yn y gymuned, ac arian Ewropeaidd, yn enwedig mewn ardaloedd o amddifadedd cymdeithasol uchel. Fodd bynnag, cyfyngir ar ddatblygiad darpariaeth ar hyn o bryd oherwydd ansicrwydd ynghylch lefelau ariannu yn y dyfodol.

Mewn llawer o achosion, mae prinder adnoddau wedi cyfyngu'r gwaith datblygu mewn ardaloedd lleol, sy'n angenrheidiol i sicrhau'r amgylchiadau ar gyfer ehangu cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion. Nid yw'n hawdd trefnu amser datblygu mewn trefniadau ariannu. Mae ariannu tymor byr hefyd yn creu problemau penodol yn y math hwn o waith. Mewn rhai ardaloedd, mae disgwyliadau a dyheadau dysgwyr newydd wedi codi ac ni fu'n bosibl cynnal rhaglenni a phrosiectau yn y tymor canolig i dymor hir. O ganlyniad, mae dysgwyr newydd wedi colli hyder i raddau, ar ôl goresgyn rhwystrau sylweddol i gymryd rhan o bosib, a chael eu harwain at amau eu cyfleoedd dysgu yn y dyfodol.

Cymwysterau a phrofiad staff

Yn y rhan fwyaf o achosion, caiff athrawon eu hyfforddi a'u lleoli'n effeithiol i fodloni anghenion dysgwyr newydd. Fel arfer, mae gan reolwyr llwyddiannus sy'n gweithio mewn addysg gymunedol i oedolion gymwysterau da ac mae gan lawer brofiad sylweddol o ddatblygu darpariaeth i fodloni anghenion cymunedau lleol. Maent yn adeiladu timau'n effeithiol, gan wybod cryfderau eu staff ac anghenion y rheiny yn y gymuned leol.

Caiff llawer o'r staff sy'n ymwneud â chyflwyno dysgu i oedolion ac yn y gymuned eu cyflogi ar gontractau rhan-amser a thâl yn ôl yr awr. Yn gyffredinol, mae ganddynt

gymwysterau a phrofiad priodol. Yn aml, maent wedi bod yn gweithio yn yr un ganolfan am sawl blwyddyn ac wedi adeiladu perthynas a chysylltiadau da gyda'r staff yn y ganolfan ac enw da yn y gymuned. Mewn rhai prosiectau, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â Chymunedau yn Gyntaf, caiff pobl leol briodol eu canfod i gyflwyno'r dysgu. Yn aml, maent wedi cyfranogi yn y ganolfan yn flaenorol fel dysgwyr. Mae athrawon a benodir o'r gymuned yn y modd hwn yn darparu enghraifft dda, effeithiol ac yn aml yn dangos empathi cryf gyda'r rheiny sydd â diffyg hyder a hunan-barch, gan y gallant fod o gefndir tebyg eu hunain.

Astudiaeth achos 11: Arfer dda wrth benodi athrawon o'r gymuned:

Mae un darparwr coleg, sy'n gweithio'n agos gyda grwpiau cymunedol presennol a phrosiectau Cymunedau yn Gyntaf, yn gofalu nad yw'n gwthio ei staff ei hun arnynt. Pan fydd prosiect newydd yn cael ei drafod, mae swyddog cyswllt y coleg yn gofyn a oes person lleol addas ar gael i gyflwyno'r dysgu.

Os oes person felly, bydd y swyddog cyswllt yn rhoi cyfweliad iddo i sicrhau ei fod yn debygol o allu cyflwyno i safon briodol. Mae'r prif feini prawf dewis yn cynnwys yr agwedd gywir a'r gallu i uniaethu ag anghenion yr ardal leol. Mae'r rhain yn bwysicach na chymwysterau ffurfiol. Lle nad oes gan athro lleol gymhwyster addysgu sylfaenol eisoes, mae'r coleg yn rhoi'r holl gymorth sydd ei angen arno i'w ennill, gan gynnwys hepgor unrhyw ffioedd cwrs.

Mae'r astudiaeth achos hon yn dangos arfer dda wrth benodi athrawon o'r gymuned leol. Dengys hefyd gymorth effeithiol ar gyfer yr athrawon, ar ôl eu penodi, wrth eu hannog i ennill cymhwyster addysgu.

Mae sawl darparwr wedi sefydlu rhwydweithiau effeithiol i nodi llwybrau datblygu staff ar gyfer eu hathrawon rhan-amser. Mae cysylltiadau â'r partneriaethau dysgu gydol oes lleol yn eu helpu i nodi'r hyfforddiant sydd ar gael ac i sicrhau ei fod yn bodloni anghenion eu hathrawon. Mewn rhai darparwyr, trefnir sesiynau datblygu staff arbennig i helpu athrawon ymdopi gyda phroblemau a materion cyffredin, fel datblygu hyder wrth ddefnyddio ystod ehangach o arddulliau addysgu. Fodd bynnag, pan fo athrawon yn rhan-amser, a chydag ymrwymiadau proffesiynol a phersonol eraill, mae'n aml yn anodd sicrhau ymrwymiad i hyfforddiant parhaus.

Adeiladau

Mae darparwyr yn defnyddio ystod eang o adeiladau i gyflwyno dysgu yn y gymuned i oedolion. Yn aml, mae'n rhaid i drefnwyr gydbwyso pwysigrwydd sicrhau bod cwrs penodol ar gael yn lleol yn erbyn anaddasrwydd yr adeiladau sydd ar gael, yn enwedig lle mae offer neu adnoddau arbenigol yn ofynnol. Mae llawer o'r ddarpariaeth sefydledig mewn canolfannau addysg oedolion presennol neu ysgolion a cholegau lleol. Yn gyffredinol, mae'r rhain yn ddigonol o leiaf at y dibenion y maent yn cael eu defnyddio, ac yn dda mewn llawer o achosion. Mewn canolfannau addysg oedolion arbenigol, ymdrechwyd yn fawr i sicrhau y cynigir amgylcheddau deniadol a chroesawgar i ddysgwyr i annog eu cyfranogiad. Nid yw hyn bob amser yn bosibl mewn lleoliadau eraill, yn enwedig ysgolion a cholegau, lle caiff ystafelloedd eu rhannu gyda defnyddwyr yn ystod y dydd a'u defnyddio gan ddysgwyr sy'n oedolion

gyda'r nos yn unig. Yn y lleoliadau hyn, nid oes modd arddangos gwaith dysgwyr ac mae lle storio'n gyfyng yn gyffredinol.

Caiff llawer o'r mentrau arbennig i ehangu cyfranogiad eu cyflwyno mewn lleoliadau anhraddodiadol, gan gynnwys neuaddau cymunedol neu eglwysi lleol, ystafelloedd mewn tafarndai, canolfannau hamdden a siopau stryd fawr wedi'u haddasu. Mae dysgwyr newydd yn hoff o'r lleoliadau hyn, gan nad oes ganddynt gysylltiadau â dysgu aflwyddiannus y gorffennol. Yn benodol, nid yw llawer o ddysgwyr newydd yn fodlon mynd yn ôl i'r un ysgol y gwnaethant fynychu'n flaenorol fel disgybl neu, mewn rhai achosion, mynd i unrhyw ysgol. Mae'r cyfle i fynd i le cyfarwydd yn y gymuned, fel tafarn, yn eu hannog i ailgysylltu â dysgu ac nid yw'n gymaint o fygythiad i ddysgwyr sydd â diffyg hyder.

Astudiaeth achos 12: Pwysigrwydd y lleoliad cywir:

Roedd un darparwr yn cynnig cwrs addysg i oedolion mewn ysgol leol. Yn anffodus, penderfynodd cyfran uchel o'r dysgwyr adael. Dangosodd gyswllt anffurfiol â'r rheiny a adawodd nad oeddent yn hoffi'r amgylchedd ysgol oherwydd eu cysylltiadau blaenorol â'r ysgol. Y flwyddyn ganlynol, newidiodd y darparwr y lleoliad i gyfleuster canol dref. O ganlyniad, cynyddodd nifer y dysgwyr a gofrestrodd a gwellodd y nifer a arhosodd drwy gydol y cwrs cyfan.

Adnoddau dysgu

Mae gan lawer o ganolfannau arbenigol amrywiaeth eang o adnoddau dysgu ar gael. Wrth i athrawon ddod yn fwy medrus wrth ddefnyddio amrywiaeth o dechnegau addysgu, maent yn defnyddio mwy o fideo a chymhorthion clyweled eraill. Mae'r twf yn y galw am gyrsiau technoleg gwybodaeth sylfaenol wedi annog llawer o ddarparwyr i fuddsoddi mewn gliniaduron symudol. Bydd athrawon yn mynd â'r rhain i lawer o amgylcheddau dysgu anhraddodiadol ac yn cyflwyno dosbarthiadau yno'n effeithiol.

Cynigir rhai cyrsiau mewn lleoliadau lle nad yw'r adnoddau sydd ar gael yn llawn fodloni gofynion y maes llafur a ddilynir, nac ychwaith ddiddordebau'r dysgwyr. Er enghraifft, mewn crochenwaith, nid oes gan rai canolfannau'r holl offer sydd ei angen arnynt i wneud cynnyrch ceramig arbenigol, ac mewn gwaith saer, nid oes rhai peiriannau torri coed penodol ar gael mewn rhai canolfannau. Mewn llawer o'r achosion hyn, mae athrawon yn cysylltu'n effeithiol â darparwyr eraill er mwyn benthyg yr adnoddau dysgu ychwanegol. Fel arall, maent yn trefnu cynnal y dosbarth mewn lleoliad arall, adeiladau'r darparwr arall fel arfer, lle gall y dysgwyr ddefnyddio'r adnoddau hyn. Mae gan y sesiynau hyn y gwerth ychwanegol o roi cyfle i ddysgwyr ymweld â darparwyr eraill a'u hannog i ystyried dilyniant.

11 Argymhellion

Er mwyn gwella darpariaeth ac ehangu cyfranogiad mewn dysgu yn y gymuned i oedolion, mae angen:

(1) datblygu fframwaith polisi cenedlaethol clir ar gyfer darparu dysgu yn y gymuned i oedolion, wedi'i gefnogi gan yr adnoddau sy'n ofynnol i fodloni'r dyheadau a osodwyd yn Y Wlad sy'n Dysgu;

(2) rhoi sylw i anghydraddoldeb o ran darpariaeth ledled Cymru ac o fewn ardaloedd lleol, drwy osod targedau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol i ehangu cyfranogiad.

(3) unioni'r polisi ffioedd ledled Cymru;

(4) mapio darpariaeth yn fwy effeithiol o fewn ardaloedd CCAH lleol er mwyn nodi bylchau a dyblygu mewn dysgu yn y gymuned i oedolion;

(5) defnyddio gwybodaeth leol yn fwy i nodi'n fwy trwyadl yr anghenion dysgu sydd angen eu bodloni, a datblygu rhwydweithiau darparwyr lleol mwy effeithiol er mwyn bodloni'r anghenion hyn;

(6) unioni systemau casglu data a sicrhau y defnyddir y data hwn i osod targedau, i arfarnu perfformiad dysgwyr a darparwyr ac i fonitro cyfranogiad gwahanol grwpiau cleient;

(7) ailarchwilio effeithiolrwydd trefniadau trydydd parti ac annog yr holl ddarparwyr sydd â darpariaeth dysgu yn y gymuned i oedolion sylweddol i wneud cais yn uniongyrchol i ELWa ar gyfer arian, ond i weithio mewn partneriaeth ag eraill drwy rwydweithiau lleol;

(8) annog sefydliadau eiriolaeth arbenigol a chymunedol i helpu nodi anghenion dysgwyr newydd ac i weithio mewn partneriaeth gyda darparwyr i fodloni'r anghenion hyn;

(9) olrhain cynnydd dysgwyr yn well wrth iddynt symud drwy'r system, er mwyn arfarnu perfformiad y darparwr ac i fonitro argaeledd llwybrau dilyniant addas;

(10) symleiddio llifau arian a darparu mwy o sicrwydd i ganiatáu cynllunio mwy effeithiol;

(11) datblygu systemau sicrhau ansawdd mwy effeithiol ar bob lefel;

(12) cryfhau'r defnydd a wneir o holiaduron bodlonrwydd dysgwyr a dangos sut y cafodd darpariaeth ei haddasu o ganlyniad; a

(13) gwella mynediad i ddysgwyr i arweiniad addysgol a gyrfaol.

Atodiad 1:

Dyma'r darparwyr yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r arolygiad:

Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Ynys Môn;
Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Pen-y-Bont ar Ogwr;
Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Caerdydd;
Coleg Glannau Dyfrdwy;
Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir y Fflint;
Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Gwynedd;
Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Castell-nedd Port Talbot;
Coleg Castell-nedd Port Talbot;
Awdurdod Addysg Lleol Cyngor Sir Casnewydd;
Cyngor Gwasanaethau Gwirfoddol Abertawe;
View (Dove) Ltd;
Cyngor Ffoaduriaid Cymru;
Coleg Ystrad Mynach.

Atodiad 2

Natur dysgu yn y gymuned i oedolion?

Yn draddodiadol, bu'n anodd iawn diffinio'r maes gwaith hwn. Yn fwy aml, fe'i ddisgrifiwyd yn negyddol, hynny yw, yn ôl yr hyn nad yw'n darparu. Er enghraifft, ar ôl y Ddeddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch, cyfeiriwyd ato fel darpariaeth "nad yw'n ddarpariaeth" Atodlen 2. Fe'i ddisgrifiwyd hefyd fel addysg bellach "arall" ac addysg gyffredinol "arall". Mae'r nodweddion canlynol yn helpu wrth gydnabod dysgu yn y gymuned i oedolion:

- fel arfer, mae dysgwyr dros 19 oed;
- mae'r pwyslais ar ddarpariaeth mewn lleoliadau cymunedol neu ysgolion neu, yn achos colegau, canolfannau allymestyn i ffwrdd o brif safle'r coleg;
- mae'r addysg a ddarperir fel arfer o natur anffurfiol, gan bwysleisio argaeledd ar gyfer pob dysgwr;
- yn aml, disgrifiwyd agweddau ar y ddarpariaeth fel 'addysg ryddfrydig i oedolion' oherwydd natur y cwricwlwm a'r tueddiad yn y gorffennol o'i weld fel datblygiad personol unigol a pharatoi ar gyfer dinasyddiaeth weithgar, yn hytrach na hyfforddi ar gyfer gwaith. Fodd bynnag, mae wedi ei anelu'n gynyddol at baratoi pobl i ddychwelyd i ddysgu ac i'r farchnad lafur;
- ceir ffocws ar oedolion dan anfantais, gyda phwyslais ar oedolion anabl, menywod sy'n dychwelyd i addysg a gwaith gyda grwpiau lleiafrifoedd ethnig;
- gall darpariaeth fod wedi'i hachredu neu heb ei hachredu. Mae cyfran fawr o'r gwaith yn arwain at gredydau OCN;
- mae tri chwarter o'r dysgwyr yn fenywod. Mae cyfran fwyaf y dysgwyr dros 40 oed, a llawer ohonynt wedi ymddeol o waith. Ceir cyfran fawr o ddysgwyr sydd wedi elwa'n sylweddol eisoes o addysg. Fodd bynnag, mae'r ddarpariaeth yn anelu'n gynyddol at ddenu grwpiau o ddysgwyr nad ydynt yn cael eu cynrychioli'n ddigonol ac at ehangu mynediad i gyfranogwyr anhraddodiadol, gyda llawer ohonynt yn dychwelyd i ddysgu am y tro cyntaf;
- fel arfer (ond nid bob tro), mae'r ddarpariaeth ar lefel Fynediad neu Lefel 1 neu 2, yn hytrach na lefelau uwch;
- mae'n cynnwys Cymraeg i oedolion;
- gall fod yn gysylltiedig â dysgu mewn grŵp, er enghraifft grŵp tenantiaid neu breswylwyr;
- caiff ei gysylltu'n aml â datblygu ac adnewyddu cymunedau;

- efallai na chaiff cyrsiau eu cyflwyno fel rhai ‘galwedigaethol’, ond gall dysgwyr eu defnyddio fel hynny. Er enghraifft, gall cyrsiau addurno cacennau a threfnu blodau alluogi’r dysgwr i gael comisiynau y talir amdanynt;

- yn gyffredinol, mae’n rhan-amser yn hytrach nag amser llawn, ac am sesiynau dwy awr bob wythnos yn fwyaf cyffredin gyda rhai ysgolion Sadwrn a chyrsiau undydd;

- bron yn ddieithriad, caiff ei addysgu gan athrawon sy’n cael eu talu yn ôl yr awr; a

- chynigir darpariaeth gyda’r nos yn draddodiadol, yn aml mewn adeiladau ysgol ond yn gynyddol mewn lleoliadau cymunedol arbenigol. Bu datblygiad sylweddol o ddarpariaeth yn ystod y dydd i fodloni anghenion grwpiau targed penodol.

Er na fyddai unrhyw un o’r nodweddion hyn ar ei phen ei hun yn ddigonol i ddiffinio dysgu yn y gymuned i oedolion, mae’r nodweddion hyn gyda’i gilydd yn ddefnyddiol i ddarparu proffil o ddarpariaeth dysgu yn y gymuned i oedolion. O fewn y fframwaith hwn yr ehangir cyfranogiad ar gyfer oedolion heb gymwysterau ac oedolion â chymwysterau gwael.

Ar y cyfan, anelir darpariaeth dysgu yn y gymuned i oedolion at amrywiaeth eang o wahanol ddysgwyr posibl sydd ag anghenion a disgwyliadau gwahanol iawn.

Caiff llawer ohoni ei darparu gan:

- colegau addysg bellach sy’n trefnu darpariaeth allymestyn mewn lleoliadau cymunedol;

- colegau addysg bellach sydd â chytundebau trydydd parti gydag awdurdodau lleol a sefydliadau gwirfoddol;

- awdurdodau lleol sy’n trefnu darpariaeth uniongyrchol;

- sefydliadau gwirfoddol a chymunedol, yn enwedig Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) a Chymdeithas Gristnogol Dynion Ifanc (YMCA);

- partneriaethau adfywio, er enghraifft Cymunedau yn Gyntaf;

- consortia Cymraeg i oedolion;

- Y Brifysgol i Ddiwydiant/ Cyswlltdysgu; a

- sefydliadau Addysg Uwch sy'n darparu mewn lleoliadau cymunedol drwy eu hadrannau Addysg Barhaus i Oedolion.

Yn ystod y degawd diwethaf, mae dysgu yn y gymuned i oedolion wedi cael ei ddiwygio a'i ailffurfio gan gyfres o ddeddfau gan gynnwys:

- Deddf Addysg Bellach ac Addysg Uwch 1992;

- diwygiad 1996 o'r Ddeddf Llywodraeth Leol; a

- Deddf Dysgu a Medrau 2000.

Mae'r ddeddfwriaeth hon wedi cael effaith bwysig ar fodelau cyflwyno a chwricwlwm ac wedi creu'r sector cymhleth iawn sy'n bodoli erbyn hyn.

Ffynonellau

Cyngor Cenedlaethol ELWa Mai 2003 Adolygiad o *Addysg Barhaus i Oedolion a Gyflwynir drwy Awdurdodau Lleol yng Nghymru*

Llywodraeth Cynulliad Cymru *Bwletin Ystadegol Mai 2003*

Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru *Adroddiadau arolygu o sefydliadau addysg bellach a gwasanaethau awdurdodau lleol a gyhoeddir ar wefan Estyn yn www.estyn.gov.uk*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2001. *Y Wlad sy'n Dysgu: Dogfen Ymbaratoi*

NIACE Dysgu Cymru 2002 a 2003. *Arolygon NIACE Dysgu Cymru ar Gyfranogiad Oedolion mewn Dysgu yng Nghymru 2002 a 2003*

Meincnodi Syniad. Mehefin 2003. *Meincnodi Addysg Oedolion ac Addysg Barhaus*

Llywodraeth Cynulliad Cymru, Hydref 2002. *Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19, Dogfen Ymgynghori*

Llywodraeth Cynulliad Cymru 2003 *Pobl, Lleoedd, a'r Dyfodol: Cynllun Gofodol Cymru*

Llywodraeth Cynulliad Cymru 2000*: Cymunedau yn Gyntaf*